ARIANNU
A CHYLLID

Elusennau a Chodi Arian

COMISIWN ELUSENNAU

Y Comisiwn Elusennau

Y Comisiwn Elusennau yw rheolydd annibynnol elusennau yng Nghymru a Lloegr. Ei nod yw rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr yn y ffordd orau bosibl er mwyn cynyddu effeithiolrwydd elusennau a ffydd a hyder y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn, ond nid oes rhaid i rai mathau arbennig o elusennau gofrestru. Mae tua 180,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r fframwaith yn wahanol yn yr Alban, ac nid yw'r Comisiwn yn rheoleiddio elusennau'r Alban.

Mae'r Comisiwn yn darparu amrywiaeth helaeth o gyngor a chanllawiau i elusennau a'u hymddiriedolwyr, ac yn aml iawn gall helpu i ddatrys problemau. Mae'n rhaid i elusennau cofrestredig sydd ag incwm blynyddol o fwy na £10,000 roi gwybodaeth flynyddol i'r Comisiwn. Mae pwerau eang gan y Comisiwn i ymyrryd ym materion elusen pan fydd pethau wedi mynd o'i le.

Cynnwys

A. Cyflwyniad 2

B. Elusennau a chodi arian - golwg gyflym 5

C. Dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr 7

Ch. Hunanreoleiddio ar waith 20

D. Codi arian a'r gyfraith 25

Dd. Materion codi arian 38

E. Elusennau a phartneriaid masnachol 48

F. Gwybodaeth bellach, cyngor ac adnoddau 55

A. Cyflwyniad

Codi arian yw ffynhonnell allweddol incwm i sawl elusen; ar gyfer rhai, dyma eu hunig ffynhonnell incwm felly mae'n bwysig bod y Comisiwn yn helpu elusennau a'u hymddiriedolwyr i godi arian yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gyfreithiol. Nod y canllaw hwn yw helpu elusennau a chodwyr arian i weithio mewn ffordd sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac arferion da.

A1. Am beth ac i bwy mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw yn ymwneud â chodi arian o'r cyhoedd er budd elusennau a'u buddiolwyr. Mae wedi'i anelu'n bennaf ar gyfer elusennau a'u hymddiriedolwyr, ond gall fod o ddiddordeb hefyd i godwyr arian proffesiynol, busnesau ac ymgynghorwyr sy'n gweithio ym maes codi arian ac i roddwyr. Mae'r gyfraith elusennau yn gymwys i sefydliadau ac unigolion sy'n apelio am arian at ddibenion elusennol.

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth ar y gyfraith elusennau fel y bo'n gymwys i godi arian, yr egwyddorion cyffredinol y dylai elusennau eu dilyn wrth ddatblygu strategaeth codi arian, pryd y mae *Codau Ymarfer Codi Arian* hunanreoleiddio'r sector yn gymwys a gwybodaeth ar faterion y gall elusennau ddod ar eu traws. Nid yw'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth ar sut i godi arian oni bai bod cyfreithiau penodol sy'n gysylltiedig â'r dull codi arian hwnnw. I gael gwybodaeth am bob dull codi arian, mae *Codau Ymarfer Codi Arian* hunanreoleiddio'r Sefydliad Codi Arian yn darparu canllawiau arbenigol.

A2. 'Rhaid' a 'dylai': beth ydym yn ei olygu

Yn y canllaw hwn, pan ddefnyddiwn '**rhaid**', golygwn ei fod yn ofyniad cyfreithiol neu reoleiddio penodol sy'n effeithio ar ymddiriedolwyr neu elusen. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr gydymffurfio â'r gofynion hyn. Er mwyn eich helpu i adnabod yr adrannau hynny sy'n cynnwys gofyniad cyfreithiol neu reoleiddio defnyddiwyd y symbol C ar frig yr adran honno.

Defnyddiwn '**dylai**' ar gyfer eitemau y mae'r Comisiwn yn eu hystyried yn arferion da lleiaf, ond nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol penodol i'w cyflawni.

Hefyd cynigiwn gyngor ac argymhellion eraill a allai fod yn ddefnyddiol i ymddiriedolwyr wrth iddynt reoli eu helusen.

A3. Canllawiau blaenorol

Mae'r canllaw yn ddiweddariad o Elusennau a Chodi Arian (CC20) a gafodd ei ddiweddaru diwethaf yn Ebrill 2008. Cafodd ei ddiwygio a'i ddiweddaru i gynnwys newidiadau i'r gyfraith a gafodd eu cyflwyno gan Ddeddf Elusennau 2006 ac ar ôl i'r sector fabwysiadu hunanreoleiddio ar gyfer codi arian.

A4. Diffiniadau

Er ein bod wedi ceisio ysgrifennu'r canllaw hwn mewn iaith bob dydd, roedd rhaid i ni ddefnyddio termau technegol mewn mannau. Mae'r rhestr hon yn esbonio rhai ohonynt:

Amcanion yw'r dibenion elusennol cyfreithiol y mae elusen yn bodoli i'w cyflawni neu'r pethau y cafodd ei sefydlu i'w cyflawni fel y nodir yn ei dogfen lywodraethol. Gall yr amcanion gael eu geirio'n gyffredinol a'u mynegi mewn iaith gyfreithiol. Maent yn cyfeirio, ac o ganlyniad yn cyfyngu, ar sut y mae'n rhaid defnyddio asedau'r elusen.

Buddiolwr neu fuddiolwyr yw'r bobl y mae 'amcanion' sefydliad yn bwriadu cynnig budd iddynt (ei nodau neu ei ddibenion).

Codwr arian proffesiynol yw unrhyw un sy'n rhedeg busnes codi arian masnachol, sy'n codi arian yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol; neu unrhyw un arall sy'n gofyn am arian neu eiddo arall i'r elusen. Nid yw hyn yn cynnwys:

- elusen neu 'gwmni cysylltiedig' (gweler isod)
- unrhyw swyddog neu weithiwr elusen neu gwmni cysylltiedig
- ymddiriedolwr yr elusen, sy'n gweithredu fel ymddiriedolwr
- unrhyw gasglwr elusennol cyhoeddus, heblaw hyrwyddwyr
- pobl sy'n gofyn am arian ar y teledu neu'r radio
- unrhyw gyfranogwr masnachol
- unrhyw un sy'n cael ei dalu ddim mwy na £1,000 ar gyfer apêl arbennig, neu ddim mwy na £10 y dydd neu £1,000 y flwyddyn os nad oes apêl benodol

Cwmni cysylltiedig yw cwmni sy'n cael ei reoli gan elusen, neu grŵp o elusennau, drwy'r pleidleisiau sydd ganddo ef, neu ganddyn nhw mewn cyfarfod cyffredinol o'r cwmni.

Cyfranogwr masnachol - nid yw'n fusnes codi arian ond yn hytrach yn fenter fasnachol sy'n cymryd rhan mewn menter hyrwyddo, megis ymgyrch hysbysebu neu werthu, lle mae'r cyhoedd yn cael gwybod y caiff cyfraniadau eu rhoi neu eu defnyddio er budd elusen. Gall cyfranogwr masnachol fod yn destun i'r un gofynion rheoleiddio â chodwyr arian proffesiynol os yw ei holl weithgareddau at 'ddibenion elusennol' (gweler Rhan E)

Cytundeb codi arian yw cytundeb ysgrifenedig wedi'i arwyddo gan y ddau barti sy'n amlinellu'r amcanion a thelerau y gall codwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol godi arian oddi dano ar ran yr elusen (gweler Rhan E).

Datganiad deisyfu yw datganiad y mae'n rhaid i'r canlynol ei wneud:

- codwyr arian proffesiynol pan fyddant yn gofyn i'r cyhoedd am arian
- cyfranogwyr masnachol pan fyddant yn esbonio sut y bydd elusen yn elwa o fenter hyrwyddo
- unrhyw godwr arian arall nad yw'n wirfoddolwr pan fydd yn cymryd rhan mewn casgliad cyhoeddus

Rhaid i'r datganiad esbonio perthynas yr unigolyn neu'r corff â'r elusen a'r tâl y bydd ef neu hi neu'r elusen yn ei dderbyn (gweler Adran D7 a Rhan E).

Deddf 1992 yw Deddf Elusennau 1992.

Deddf 1993 yw Deddf Elusennau 1993.

Deddf 2006 yw Deddf Elusennau 2006.

Dogfen lywodraethol yw dogfen gyfreithiol sy'n amlinellu amcanion yr elusen (ei nodau neu ei dibenion) a sut y caiff ei gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, yn gyfansoddiad, yn femorandwm ac erthyglau cymdeithasu, yn ewyllys, yn drawsgludiad, yn Siarter Frenhinol, yn gynllun y Comisiwn Elusennau, neu'n ddogfen ffurfiol arall.

Rheoliadau 1994 yw Rheoliadau (Codi Arian) Sefydliadau Elusennol 1994.

Ymddiriedolwyr yw'r bobl sy'n gwasanaethu ar gorff llywodraethu elusen. Gallant gael eu galw'n ymddiriedolwyr, yn gyfarwyddwyr, yn aelodau bwrdd, yn llywodraethwyr neu'n aelodau pwyllgor. Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol.

B. Elusennau a chodi arian - golwg gyflym

Mae'r tudalennau hyn yn rhoi crynodeb o'r materion y mae angen i elusennau eu hystyried os ydynt yn ymgymryd â gweithgareddau codi arian.

Dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr C

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr sicrhau bod eu helusen yn cydymffurfio â'r gyfraith codi arian ac yn dilyn arferion gorau. Mae hyn yn cynnwys pob agwedd ar godi arian gan gynnwys dulliau codi arian, y costau sy'n codi, y risg ariannol a sut mae'r arian a godir yn cael ei wario. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr ystyried yr effaith a gaiff eu dulliau codi arian ar farn gyhoeddus ac enw da eu helusen. I gael rhagor o wybodaeth gweler Adrannau C3 ac C4.

Hunanreoleiddio

Mae hunanreoleiddio yn golygu bod elusennau a chodwyr arian proffesiynol yn gosod ac yn dilyn eu safonau arferion codi arian eu hunain. Mae hunanreoleiddio wedi'i ategu gan godau hunanreoleiddio a ddatblygwyd gan y Sefydliad Codi Arian a thrwy waith y corff cwynion annibynnol, sef y Bwrdd Safonau Codi Arian (FRSB). Mae elusennau yn aelodau o'r FRSB er mwyn adnabod eu hunain fel elusennau sy'n dilyn arferion da. I gael rhagor o wybodaeth gweler Rhan Ch a Rhan E.

Codi arian a'r gyfraith C

Mae rhai agweddau ar godi arian yn destun rheoleiddio a deddfwriaeth benodol.

- casgliadau cyhoeddus
- gweithgareddau hapchwarae megis lotrïau, rafflau ac ati
- digwyddiad codi arian
- codi arian darlledu a ffôn
- codi arian sy'n cynnwys plant
- codi arian ar-lein
- casglu o dŷ i dŷ
- codi arian sy'n cynnwys codwyr arian proffesiynol
- codi arian yn cynnwys codwyr arian (heblaw rhai proffesiynol) sy'n cael eu talu gan yr elusen
- chodi arian sy'n cynnwys cyfranogwyr masnachol

Gall codi arian hefyd fod yn destun cyfreithiau eraill sydd y tu allan i'r gyfraith elusennau megis y rhai sy'n ymwneud â hapchwarae, trethu, yswiriant, amddiffyn plant a diogelu data. I gael rhagor o wybodaeth gweler Adrannau D4 ac F1.

Materion codi arian

Mae'r problemau posibl y gall elusennau eu hwynebu i'w gweld yn Adran Dd. Mae'r rhain yn cynnwys:

Delio â chwynion

Dylai elusennau gael proses gwyno agored a hygyrch a fydd yn gwella hyder cyhoeddus a hefyd yn helpu i adnabod gweithgarwch codi arian twyllodrus. I gael rhagor o wybodaeth gweler Adrannau Dd5 ac Dd6.

Twyll codi arian

Gall elusennau ddioddef troseddau twyll neu ariannol yn yr un modd â sefydliadau eraill. Dylai ymddiriedolwyr gymryd camau rhesymol i atal gweithgarwch twyllodrus gan gynnwys adrodd amdano i'r heddlu. Dylai ymddiriedolwyr hefyd adrodd am dwyll i'r Comisiwn Elusennau fel digwyddiad difrifol. Mae gwybodaeth bellach i'w cael yn ein canllaw ar *Adrodd am Ddigwyddiadau Difrifol.*

Dylai rhoddwyr ac aelodau'r cyhoedd sy'n poeni am gyfreithlondeb gweithgarwch codi arian gysylltu â'r elusen yn uniongyrchol. Dylid rhoi gwybod i'r heddlu am unrhyw bryderon y gall apêl neu weithgarwch fod yn dwyllodrus neu'n ffug.

Costau codi arian

Nid oes unrhyw lefel benodol ar gyfer costau codi arian, naill ai yn y gyfraith neu mewn arferion da. Mae sawl ffactor sy'n effeithio ar y lefelau costau, gan gynnwys y dull codi arian, poblogrwydd yr achos a maint a phroffil yr elusen. Dylai elusennau sicrhau'r telerau gorau ar gyfer gweithgareddau codi arian ar gyfer yr elusen a bod yn agored ac yn dryloyw ynghylch y costau hyn.

Elusennau a phartneriaid masnachol C

Mae partneriaid masnachol yn cynnwys codwyr arian proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau codi arian i elusennau fel eu busnes craidd; a chyfranogwyr masnachol sy'n gwmnïau sy'n rhoi cyfran neu swm penodol o arian o werthu nwyddau, gwasanaethau neu fenter hyrwyddo.

Er bod elusennau'n defnyddio cyfranogwyr masnachol a chodwyr arian proffesiynol mewn ffyrdd gwahanol iawn, mae'r ddwy bartneriaeth yn cael eu rheoleiddio mewn ffordd debyg. Dylai elusennau fod yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol sy'n rheoli cytundebau codi arian, datganiadau deisyfu a sut y mae'r arian a godir yn cael ei reoli. I gael rhagor o wybodaeth gweler Rhan E.

C. Dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr

C1. Beth yw dyletswyddau cyfreithiol ymddiriedolwyr o ran codi arian?

C

Yr ateb byr

Mae dyletswydd dra phwysig gan ymddiriedolwyr i weithredu er lles yr elusen. Drwy wneud hynny, rhaid iddynt weithredu'n ddoeth, gan gydbwyso adnoddau a'r risgiau posibl i'r elusen. Mae dyletswydd gofal ymddiriedolwyr yn gofyn iddynt ddefnyddio gofal a gallu rhesymol wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

Os yw aelodau'r cyhoedd neu wirfoddolwyr yn codi arian ar ran yr elusen, neu os yw'r elusen yn cyflogi codwr arian proffesiynol, dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod rheolaeth briodol ganddynt dros yr arian. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod arian dim ond yn cael ei wario at y diben y cafodd ei godi ar ei gyfer.

Yn fwy manwl

Mae gan ymddiriedolwyr y prif gyfrifoldeb dros lywio materion yr elusen, a dylent sicrhau ei bod yn ddiddyled, yn cael ei rhedeg yn briodol, ac yn cynhyrchu'r canlyniadau elusennol y cafodd ei sefydlu i'w cyflawni er budd y cyhoedd. Mae hyn yn golygu cydymffurfio â'r gyfraith elusennau, gan weithredu er lles gorau'r elusen, cydymffurfio ag egwyddorion cyfreithiol y ddyletswydd gofal a dyletswydd pwyll a chadw rheolaeth dros arian elusennol.

Yn gyffredinol, mae'n rhaid i ymddiriedolwyr:

- sicrhau bod yr elusen yn cydymffurfio â'r gyfraith elusennau, a chyda gofynion y Comisiwn Elusennau fel y rheoleiddiwr; yn arbennig, sicrhau bod yr elusen yn paratoi adroddiadau ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni, a ffurflenni blynyddol a chyfrifon fel sy'n ofynnol gan y gyfraith
- sicrhau nad yw'r elusen yn torri unrhyw ofynion neu reolau a nodir yn ei dogfen lywodraethol a'i bod yn gweithredu'n unol â'r diben elusennol a'r amcanion a nodir yn y ddogfen
- cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth arall a rheoleiddwyr eraill (os oes) sy'n rheoli gweithgareddau'r elusen
- gweithredu gydag unplygrwydd, ac osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau personol neu gamddefnydd o arian neu asedau'r elusen

Gweithredu er lles gorau'r elusen:
Mae dyletswydd dra phwysig gan ymddiriedolwyr i weithredu er lles yr elusen a'i buddiolwyr. Mae hyn yn golygu:

- ni all ymddiriedolwyr adael i'w buddiannau personol, neu fuddiannau sefydliad neu gorff arall, ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar ran eu helusen
- ni ddylai ymddiriedolwyr heb reswm da roi cyfyngiadau arnynt hwy eu hunain, neu ganiatáu i gyfyngiadau gael eu rhoi arnynt, a fyddai'n cyfyngu ar eu gallu i wneud penderfyniadau er lles yr elusen

Dylai ymddiriedolwyr ystyried anghenion yr elusen yn awr ac yn y dyfodol. Er enghraifft, efallai bod ymddiriedolwyr yn teimlo bod manteision tymor byr i'w cael drwy gynnal apêl codi arian ddadleuol sy'n rhoi hwb sylweddol i'w hincwm. Fodd bynnag, os yw'r apêl yn cael cyhoeddusrwydd negyddol gall yr effaith hirdymor niweidio enw da'r elusen. Dylai ymddiriedolwyr gofio hyd yn oed os yw'r gwaith beunyddiol o reoli codi arian wedi cael ei ddirprwyo i staff neu wirfoddolwyr, yr ymddiriedolwyr sydd â'r prif gyfrifoldeb o hyd.

Er mwyn cydymffurfio â **dyletswydd gofal** ymddiriedolwyr; rhaid i ymddiriedolwyr:

- ddefnyddio gofal a gallu rhesymol yn eu gwaith fel ymddiriedolwyr, gan ddefnyddio eu sgiliau a'u profiadau personol fel y bo angen i sicrhau bod yr elusen yn cael ei gweinyddu'n dda ac yn effeithlon
- dylent geisio cyngor proffesiynol allanol ar bob mater lle y gall fod risg o bwys i'r elusen, neu os oes posibilrwydd bod yr ymddiriedolwyr yn gweithredu'n groeso i'w dyletswyddau

Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn briodol, dylai ymddiriedolwyr sicrhau eu bod yn cael gwybod am weithgareddau'r elusen a sut mae'r elusen yn cael ei rhedeg. Dylai ymddiriedolwyr sicrhau eu bod yn neilltuo digon o amser ac egni i ymgymryd â busnes yr elusen megis drwy bresenoldeb rheolaidd mewn cyfarfodydd bwrdd i wneud penderfyniadau strategol. Bydd hyn yn amrywio rhwng gwahanol elusennau yn dibynnu ar eu math a'u maint.

I gydymffurfio â **dyletswydd pwyll** ymddiriedolwyr, dylai ymddiriedolwyr:

- sicrhau bod yr elusen yn ddiddyled ac y bydd yn parhau'n ddiddyled
- defnyddio arian ac asedau elusennol yn rhesymol, a dim ond er mwyn hyrwyddo amcanion yr elusen
- osgoi ymgymryd â gweithgareddau a allai beryglu'n ormodol waddol, arian, asedau neu enw da'r elusen

- bod yn arbennig o ofalus wrth fuddsoddi arian yr elusen, neu fenthyca arian i'r elusen ei ddefnyddio

Rheolaeth dros arian elusen: Pan fydd yr elusen yn rhoi caniatâd i bobl godi arian ar ei rhan, megis rhywun sy'n ymgymryd â digwyddiad noddedig neu os yw'n cyflogi pobl i godi arian ar ei rhan, dylai'r ymddiriedolwr sicrhau bod yr elusen yn derbyn yr holl arian y mae hawl ganddi i'w gael. Dylai'r holl arian a godir gael ei dalu i mewn i gyfrif banc yn enw'r elusen cyn tynnu unrhyw dreuliau. Rhaid i gyfrifon yr elusen ddangos swm gros yr arian a godir cyn tynnu unrhyw gostau codi arian neu ffioedd a rhaid dangos y didyniadau hyn fel eitem gwariant ar wahân yn y cyfrifon.

Os yw'r elusen wedi rhoi caniatâd i bobl godi arian ar ei rhan, dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod:

- y llenyddiaeth apêl yn disgrifio'n fanwl gywir nodau'r apêl
- os yw codwyr arian proffesiynol yn cael eu cyflogi fel asiantau'r elusen, bod cytundeb ysgrifenedig sy'n bodloni gofynion cyfreithiol (manylion pellach yn Rhan E)
- os ydynt yn cychwyn ar fenter gyda phartner masnachol, bod cytundeb codi arian sy'n bodloni gofynion Deddf 1992

Dylai ymddiriedolwyr hefyd fonitro costau yn erbyn y gyllideb a sicrhau nad yw'r costau sy'n codi yn fwy na'r gyllideb arfaethedig. I gael gwybodaeth bellach am reolaethau ariannol (er enghraifft, rheolaethau dros flychau casglu a chyfrif, rheolaethau dros ddigwyddiadau codi arian), gweler ein canllaw *Rheolaethau Ariannol Mewnol ar gyfer Elusennau* (CC8).

Mae'r Comisiwn Elusennau yn cynnig gwybodaeth a chyngor i elusennau ar ofynion cyfreithiol ac arferion da i'w cynorthwyo i weithredu mor effeithiol â phosibl ac atal problemau rhag codi. Yn yr achosion prin lle mae problemau difrifol wedi codi mae pwerau eang gennym i'w hystyried ac unioni pethau. Gall ymddiriedolwyr fod yn atebol yn bersonol hefyd am unrhyw ddyledion neu golledion y mae'r elusen yn eu hwynebu o ganlyniad. Bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau a strwythur cyfreithiol yr elusen. Fodd bynnag, mae atebolrwydd personol o'r fath yn anghyffredin, ac yn gyffredinol bydd ymddiriedolwyr sydd wedi dilyn y gofynion wedi'u diogelu.

I gael rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau ymddiriedolwyr, gweler *Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod* (CC3).

C2. Beth ddylai ymddiriedolwyr ei ystyried cyn lansio apêl codi arian?

Yr ateb byr

Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am benderfynu ar ymagwedd gyffredinol yr elusen at gynhyrchu incwm a chenhadaeth.

Dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod yr apêl wedi'i chynllunio'n dda ac yn dilyn gwerthoedd ac amcanion yr elusen, gan ystyried unrhyw risgiau ariannol neu enw da sy'n gysylltiedig â'r apêl codi arian arfaethedig. Yn achos unrhyw apêl codi arian o bwys, gall hyn ofyn am gynllun busnes, cyllideb a chyngor cyfreithiol a chyfrifyddu proffesiynol o bosib. Dylai amcanion, enw da a gwerthoedd yr elusen gael eu hystyried yn ofalus cyn lansio unrhyw apêl codi arian, oherwydd codi arian yw'r unig ryngweithio y caiff yr elusen yn aml â'r cyhoedd ac o ganlyniad bydd yn effeithio ar enw da'r elusen ac yn dylanwadu ar farn darpar roddwyr a chefnogwyr.

Yn fwy manwl

Wrth lansio apêl codi arian, dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod yr apêl er lles gorau'r elusen a thrwy wneud hynny, yn dilyn arferion da.

Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yr ymddiriedolwyr eu hunain fydd yn codi arian i'r elusen neu'n trefnu codi arian yn feunyddiol. Bydd yr ymddiriedolwyr yn parhau i fod yn gyfrifol am bob agwedd ar weithgareddau'r elusen a dylai fod mecanweithiau priodol ganddynt ar gyfer dirprwyo gweithgareddau megis codi arian, gyda chylch gorchwyl clir ar gyfer y rhai sy'n cyflawni'r awdurdod dirprwyedig. Dylai'r ymddiriedolwyr gymryd diddordeb byw mewn codi arian a sicrhau eu bod yn cael adroddiadau rheolaidd ar dargedau perfformiad er mwyn ei arolygu'n briodol. Yn achos elusennau bach megis grwpiau cymunedol lleol ar lawr gwlad, efallai na fydd yn briodol i gael mecanweithiau ffurfiol megis cylch gorchwyl. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod ymddiriedolwyr elusennau bach yn parhau i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb dros sicrhau bod yr apêl codi arian arfaethedig wedi'i chynllunio'n dda ac yn mynd rhagddo'n dda.

Dyma rai o'r cwestiynau sylfaenol y dylai ymddiriedolwyr a'u helusennau eu gofyn cyn lansio'r apêl. Bydd y cwestiynau hyn hefyd yn helpu i ddangos bod yr ymddiriedolwyr yn cyflawni eu dyletswydd gyfreithiol i weithredu er lles gorau'r elusen wrth wneud penderfyniadau.

Penderfynu i beth mae'r arian yn cael ei godi ar ei gyfer:

Ydy'r arian at ddiben penodol neu ddibenion cyffredinol yr elusen?

- Os oes diben penodol, megis prynu adeiladu neu ddarn o offer arbennig, dylai elusennau bennu sut y caiff yr arian ei ddefnyddio os na ellir defnyddio'r arian at y diben, er enghraifft, os nad yw digon o arian yn cael ei godi i gyflawni prif ddiben yr apêl neu os oes arian dros ben.
- Dylai ymddiriedolwyr bennu dyddiad dechrau a diwedd ar gyfer unrhyw apêl at ddiben penodol.
- Os yw'r apêl am arian cyffredinol a sonnir am brosiect penodol yn y llenyddiaeth apêl, dylid ei nodi'n glir fel enghraifft o waith yr elusen. Dylid gofalu i beidio â chamarwain rhoddwyr i feddwl y caiff eu harian ei ddefnyddio dim ond ar gyfer prosiect penodol os nad dyma fydd yr achos.

Oes targed penodol ar gyfer yr apêl? Oes isafswm y mae angen i'r apêl ei godi neu a oes cyfres o dargedau neu drothwyon yn dibynnu ar faint sy'n cael ei godi?

- Bydd pennu'r swm y mae angen i chi ei godi yn eich helpu i ddewis y dull mwyaf priodol o godi arian ar gyfer eich apêl a rhoi amcangyfrif o faint o amser y bydd yn ei gymryd i gyrraedd y targed hwnnw.

Datblygu cynllun

Pa wariant sy'n ofynnol i gynnal yr apêl codi arian?

- Mae codi arian yn costio arian, ac er mwyn bod yn effeithiol, gall fod angen buddsoddiad cychwynnol gan yr elusen. Gall apêl codi arian fawr fod yn ymrwymiad ariannol arwyddocaol a fydd yn cynnwys cynllunio ac asesu'r risgiau a gosod cyllideb. Dylai ymddiriedolwyr gydbwyso eu buddsoddiad â'r incwm disgwyliedig, gan sicrhau ei fod yn fuddsoddiad rhesymol.

Pa ddulliau codi arian gaiff eu defnyddio?

- Mae sawl ffordd o godi arian. Bydd y dull mwyaf priodol yn dibynnu ar gydbwyso ffactorau megis adnoddau, amserlen a'r sylfaen rhoddwyr bresennol neu bosibl.

Beth yw'r gyllideb a'r amserlen arfaethedig ar gyfer yr apêl hon?

Ydy'r apêl arfaethedig yn gofyn am gyngor cyfreithiol neu gyfrifyddu proffesiynol?

- Os oes angen cyngor cyfreithiol a chyfrifyddu proffesiynol arnoch, ydych chi wedi cyllidebu ar gyfer costau'r cyngor hwn?

Oes gan yr elusen ddigon o staff neu wirfoddolwyr i gynnal yr apêl hon? Fydd angen i chi recriwtio staff newydd, gwirfoddolwyr neu godwyr arian proffesiynol i gyflawni eich nod?

- Mae'n bwysig sicrhau bod digon o staff neu wirfoddolwyr gennych i sicrhau bod yr apêl yn mynd rhagddi'n ddidrafferth a bod yr arian yn cael ei gasglu'n gywir. Gallwch hefyd ystyried recriwtio gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r apêl.

Oes angen hyfforddi staff neu wirfoddolwyr ac ydy'r gost hon wedi cael ei chynnwys yn y gyllideb?

Asesu Risg

Beth yw'r risgiau ariannol?

Oes risg i asedau neu ddata'r elusen?

Ydy'r apêl yn ariannol hyfyw?

- Ydy costau arfaethedig yr apêl yn uwch na'r enillion? Os nad yw'r apêl yn codi digon o arian, a fydd yr elusen yn parhau'n ddiddyled? Pa mor debygol yw hi y bydd yr apêl yn codi digon o arian?

Beth yw'r risgiau enw da?

- Oes risg o ddieithrio eich rhoddwyr, buddiolwyr neu'r cyhoedd pan fyddwch yn defnyddio dulliau arbennig o godi arian? Oes unrhyw faterion moesegol y dylid eu hystyried?

Ydy'r apêl yn cyd-fynd â gwerthoedd a chenhadaeth yr elusen?

Dewis dull codi arian

Beth yw'r dull mwyaf effeithiol o godi'r arian sydd ei angen?

Oes pwrpas eilaidd i'ch codi arian megis codi ymwybyddiaeth neu addysg y cyhoedd? A fydd hyn yn effeithio ar y gyllideb a'r dull codi arian a ddewiswyd?

Ydy'r dull a ddewiswyd yn cyd-fynd â gwerthoedd ac ethos eich elusen?

- Gall codi arian lunio cymeriad elusen, a gall effeithio ar werthoedd sefydliadol. Dylai'r strategaeth codi arian gael ei dylanwadu neu ei phennu gan werthoedd yr elusen, ac nid y ffordd arall. Mae'n bwysig bod pobl sy'n codi arian i'r elusen yn deall gwerthoedd yr elusen o'r cychwyn cyntaf ac yn cydnabod eu bod yn cynrychioli'r elusen. Er enghraifft, os mai pobl sy'n gaeth i hapchwarae yw buddiolwyr elusen, ni fyddai'n briodol i godi arian drwy gyfrwng lotrïau.

Oes angen i chi geisio cyngor proffesiynol?

- Os yw'r dull codi arian hwn yn un newydd i'ch elusen, a fydd angen i chi geisio cyngor proffesiynol, boed yn gyngor cyfreithiol, cyfrifyddu neu gan arbenigwyr o'r diwydiant?

Ydych chi wedi cyfeirio at Godau Ymarfer Codi Arian y Sefydliad Codi Arian, a'u dilyn?

Os ydych wedi penderfynu y bydd angen gwasanaethau codwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol arnoch i gynnal yr apêl, dyma rai o'r cwestiynau y dylai ymddiriedolwyr ac elusennau eu gofyn.

Codwyr Arian Proffesiynol

Sut dylai'r elusen ddewis codwr arian proffesiynol?

- Bydd cael dyfynbrisiau gan sawl codwr arian proffesiynol yn helpu'ch elusen i gael pris cystadleuol. Defnyddiwch eich hawl i archwilio cyfrifon a chofnodion codwr arian proffesiynol a cheisiwch eirdaon gan gyn gleientiaid os ydych yn ansicr.

Ydy'r elusen wedi trafod telerau cytundeb codi arian sydd er lles gorau'r elusen?

- Dylai ymddiriedolwyr sicrhau nad yw unrhyw ddogfen gyfreithiol yn cael ei llofnodi nes eu bod yn fodlon bod y telerau, yn enwedig cost y gwasanaeth, er lles gorau'r elusen; mae gweithredu fel arall yn debygol o gael ei ystyried yn dor-ddyletswydd. Felly mae'n hanfodol i ymddiriedolwyr ystyried a oes angen cael cyngor cyfreithiol a chyfrifyddu. Dylech ofalu eich bod yn cofnodi'r cyngor a gewch a'r drafodaeth am unrhyw benderfyniad neu ymrwymid mawr er mwyn gallu dogfennu proses gwneud penderfyniadau'r ymddiriedolwyr os oes angen ailystyried y penderfyniad am ryw reswm.

A gafodd y deunydd marchnata ei gymeradwyo gan yr elusen cyn ei ryddhau?

- Dylai ymddiriedolwyr gymryd camau rhesymol i sicrhau bod enw da'r elusen yn cael ei ddiogelu. Dylai ymddiriedolwyr, neu aelodau o staff y mae'r cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddynt, gymeradwyo deunyddiau codi arian, defnyddio enw, delwedd a logo'r elusen a sicrhau bod rheolaeth dros unrhyw hawliau eiddo deallusol, yn enwedig wrth ddelio â thrydydd partïon megis codwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol.

Cyfranogwyr Masnachol

Ydy'r elusen wedi trafod telerau cytundeb codi arian teg â'r cyfranogwr masnachol?

- Yn debyg i gytundebau codi arian â chodwyr arian proffesiynol, dylai ymddiriedolwyr sicrhau nad yw unrhyw ddogfen gyfreithiol yn cael ei llofnodi nes eu bod yn fodlon bod y telerau, er lles gorau'r elusen; bydd gweithredu fel arall yn debygol o gael ei ystyried yn dor-ddyletswydd.

A gafodd y deunydd marchnata ei gymeradwyo gan yr elusen cyn ei ryddhau?

- Dylai elusennau sicrhau eu bod yn rheoli'r defnydd o enw, delwedd a logo eu helusen ar unrhyw ddeunyddiau marchnata megis pecynnu, hysbysebion a hysbysiadau.

Ar ôl ystyried yr holl gwestiynau a materion hyn, dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod proses adolygu a monitro yn cael ei dilyn i alluogi'r ymddiriedolwyr i werthuso llwyddiant neu fethiant yr apêl codi arian.

C3. Beth ddylai ymddiriedolwyr ei ystyried wrth ddewis dull codi arian?

Yr ateb byr

Dylai ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol o'r gyfraith sy'n rheoli codi arian a chydymffurfio â'r gyfraith honno (fel yr esbonnir yn Rhan D y canllaw hwn) ac a yw'r gweithgareddau arfaethedig yn cyd-fynd â gwerthoedd yr elusen. Dylai ymddiriedolwyr hefyd ystyried y risgiau ariannol ac enw da, er enghraifft, canlyniadau posibl apêl ddadleuol.

Yn fwy manwl

Mae'r Comisiwn yn annog elusennau i fod yn arloesol yn eu hymagwedd at godi arian ond mae'n atgoffa ymddiriedolwyr o'r angen i ystyried y manteision a'r anfanteision, gan gynnwys risgiau ariannol ac enw da posibl a goblygiadau moesegol unrhyw ddull codi arian cyn ei fabwysiadu. Yn y pen draw, cyfrifoldeb yr ymddiriedolwyr yw sicrhau bod unrhyw ddull codi arian er lles gorau'r elusen. Mae rhai elusennau wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth fabwysiadu ymagweddau newydd at godi arian, megis apeliadau drwy rwydweithio cymdeithasol.

Mae rhai dulliau codi arian yn ddadleuol ac weithiau'n anfoesegol, a all ddieithrio neu gynhyrfu aelodau o'r cyhoedd, megis defnyddio:

- iaith gynyrfiadol ormodol
- delweddau anweddus o fuddiolwyr
- targedu a dwyn pwysau ar roddwyr agored i niwed nad ydynt efallai'n gallu fforddio neu'n deall telerau'r rhodd neu'r rhoddion parhaus y maent wedi ymrwymo iddi neu iddynt
- galwadau ffôn, post neu negeseuon e-bost taer ac ailadroddus
- amgáu cynnyrch megis pennau, ymbaréls neu eitemau eraill yn y post i gynhyrchu rhoddion drwy euogrwydd ariannol

Er y gall yr elusen benderfynu bod defnyddio dulliau o'r fath yn cynnig mantais iddynt yn y tymor byr, gall rhoddwyr deimlo eu bod yn cael eu rhoi o dan bwysau gormodol i roi a datblygu canfyddiad negyddol o'r elusen ac elusennau'n gyffredinol. Dylai ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol o'r problemau posibl a'r ffactorau risg cyn cytuno ar ddull codi

arian a allai gael ei ystyried yn ddadleuol. Ni ddylai elusennau ddefnyddio unrhyw ddulliau codi arian a allai niweidio ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau.

Cynghorir ymddiriedolwyr yn gryf i fod yn ymwybodol o ystyriaethau cyfreithiol, arfer da a moesegol y dulliau codi arian o'u dewis cyn awdurdodi apêl codi arian. Gweler Rhan D ac F i gael rhagor o wybodaeth am ofynion cyfreithiol a rheoleiddio.

Dylai unrhyw elusen sy'n ystyried unrhyw un o'r gweithgareddau codi arian canlynol, yn arbennig, ystyried canllawiau Codau Ymarfer Codi Arian y Sefydliad Codi Arian (IoF) ac os oes angen ceisio cyngor proffesiynol pellach:

- 'sialensiau elusennol' neu ddigwyddiadau awyr agored megis gweithgareddau noddedig neu waith cymorth dramor
- digwyddiadau megis garddwesti, arwerthiannau, ciniawau neu gyngherddau
- codi arian wyneb-yn-wyneb, gofyn i'r cyhoedd wneud ymrwymiad i roi drwy ddebyd uniongyrchol neu archeb sefydlog
- casgliadau ffôn neu ddarlledu
- apeliadau codi arian ar-lein
- rhoi trwy'r gyflogres
- rafflau a lotrïau
- codi arian cymynrodd
- recriwtio casglwyr dros y ffôn
- defnyddio llythyrau neu e-byst 'cadwyn': mae'r Comisiwn Elusennau a chyrff sector yn gwrthwynebu hyn yn gryf oherwydd gall llythyrau cadwyn fod yn boen i ddarpar roddwyr ac mae elusennau'n colli rheolaeth ar gynnwys y llythyrau yn gyflym, gan arwain at risg uchel o dwyll a niwed arwyddocaol i enw da'r elusen

Rhestrir Codau Ymarfer Codi Arian IoF yn Adran F4.

Dylai elusennau gyfeirio at Godau Hysbysebu'r Awdurdod Safonau Hysbysebu i gael rhagor o wybodaeth am safonau hysbysebu ar gyfer gohebiaeth, hysbysebion teledu a chyfryngau eraill.

C4. Pa risgiau ddylai elusennau fod yn ymwybodol ohonynt?

Yr ateb byr

Bydd elusennau'n wynebu rhyw lefel o risg ym mron pob peth a wnânt, gan gynnwys codi arian. Mae natur amrywiol y sector, a sut y mae'n codi arian a'i weithgareddau yn golygu bod elusennau unigol yn wynebu gwahanol lefelau o risg a bod yn agored i risg.

Yn fwy manwl

Mae adnabod a rheoli'r risgiau posibl y gall elusen eu hwynebu yn rhan allweddol o lywodraethu effeithiol i elusennau o bob maint a chymhlethdod. Dylai fod cynllun rheoli risg ysgrifenedig gan ymddiriedolwyr i sicrhau eu bod yn hyderus ac wedi'u hysbysu'n dda pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau a gall yr elusen ddelio â'r risgiau cysylltiedig.

Drwy reoli risg yn effeithiol, gall ymddiriedolwyr helpu i sicrhau bod:

- risgiau arwyddocaol yn hysbys ac yn cael eu monitro, gan alluogi ymddiriedolwyr i wneud penderfyniadau gwybodus a gweithredu'n amserol
- yr elusen yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd ac yn eu datblygu gyda'r sicrwydd y caiff unrhyw risgiau eu rheoli
- blaengynllunio a chynllunio strategol yn cael ei wella
- nodau'r elusen yn cael eu cyflawni'n fwy llwyddiannus

Mae disgrifio yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr y camau y mae'r elusen wedi'u cymryd i reoli risg yn helpu i ddangos atebolrwydd elusen i'w rhanddeiliaid gan gynnwys buddiolwyr, rhoddwyr, cyllidwyr, gweithwyr a'r cyhoedd.

Mathau o risg

Y prif risgiau yw'r risgiau hynny sy'n cael effaith fawr ac yn debygol neu'n debygol iawn o ddigwydd. Pe byddent yn digwydd byddent yn cael effaith fawr ar rai neu bob un o'r meysydd canlynol:

- Llywodraethu

  Er enghraifft, mae risg llywodraethu yn golygu diffyg cyfeiriad, cynllunio strategol a blaengynllunio yn yr elusen a all beryglu cynaliadwyedd yr elusen. Gellir rheoli'r risg hwn yn hawdd drwy weithredu cynllunio ariannol, cynllunio strategol a monitro parhaus o berfformiad ariannol a gweithredol. Mae enghreifftiau eraill o risgiau llywodraethu yn cynnwys diffyg

arolygiaeth a sgiliau priodol gan ymddiriedolwyr, gwrthdaro buddiannau ymddiriedolwyr a cholli staff allweddol.

- Gweithrediadau

  Mae risgiau gweithredol yn cynnwys risg contract, cystadleuaeth gan elusennau tebyg a sicrwydd asedau. Er enghraifft, gall cystadleuaeth gan elusennau tebyg gynnwys elusen yn dewis cynnal apêl codi arian ar yr un diwrnod ag apêl fawr gan elusen broffil uchel. Ni fydd yr elusen leiaf gyda phroffil is yn gallu denu'r sylw disgwyliedig yn y cyfryngau neu'r rhoddion a ddisgwylir oherwydd atyniad yr elusen fwy. Gallai'r risg hwn gael ei osgoi drwy wneud ymchwil ymlaen llaw i apeliadau mawr arfaethedig a dewis dyddiad arall.

- Cyllid

  Mae risgiau ariannol yn cynnwys rheolaeth gyllidebol ac adrodd ariannol gwael, dibynnu ar ffynonellau incwm a thwyll. Os yw elusennau'n dibynnu ar un ffynhonnell incwm, boed yn godi arian, grantiau gan un rhoddwr neu fasnach, bydd unrhyw broblemau sy'n codi gyda'r ffrwd incwm hon yn cael canlyniadau arwyddocaol i gynaliadwyedd yr elusen. Gellir lleddfu'r risg hwn drwy adnabod prif ddibyniaethau, gweithredu polisi cronfeydd wrth gefn digonol ac ystyried cynllunio arallgyfeirio.

- Ffactorau amgylcheddol neu allanol megis barn gyhoeddus neu'r berthynas â chyllidwyr

  Mae ffactorau amgylcheddol ac allanol yn cynnwys canfyddiad cyhoeddus, cyhoeddusrwydd gwael, perthynas â chyllidwyr, demograffeg rhoddwyr a pholisi'r llywodraeth. Gall niwed i enw da sy'n deillio o gyhoeddusrwydd gwael gael canlyniadau hirdymor. Mae ymddiriedaeth y cyhoedd a rhoddwyr yn dibynnu ar enw da'r elusen a'i brand. Os yw'r ffaith bod elusen yn camddefnyddio arian elusennol yn cael cyhoeddusrwydd eang, ni fydd cyllidwyr a rhoddwyr yn cefnogi'r elusen mwyach. Gall cyhoeddusrwydd gwael hefyd deillio o ffactorau allanol megis ffug gasglwr sy'n defnyddio brand eich elusen i godi arian i wneud elw personol. Gellir rheoli'r risgiau hyn drwy weithredu proses gwyno allanol a mewnol er mwyn i'r problemau ddod i'r amlwg a chael eu datrys gan yr elusen.

- Yr elusen yn cydymffurfio â'r gyfraith neu reoleiddio

  Bydd risg cydymffurfiaeth yn codi pan na fydd yr elusen yn cydymffurfio â'r gyfraith neu reoleiddio, sy'n esgor ar gosbau, colli ffydd gyhoeddus a cholli arian o bosib. Gellir osgoi'r risg hwn drwy adnabod prif ofynion cyfreithiol a rheoleiddio, dyrannu cyfrifoldeb am brif weithdrefnau cydymffurfio a gweithredu systemau monitro ac adrodd cydymffurfio.

Gallai unrhyw un o'r prif risgiau hyn a'u heffeithiau posibl newid y ffordd y bydd ymddiriedolwyr, rhoddwyr neu fuddiolwyr yn rhyngweithio â'r elusen a pheryglu ffrydiau incwm codi arian sefydlog. Ar ôl adnabod y risgiau y gallai elusen eu hwynebu, bydd rhaid penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o'u rheoli.

Mae pedair strategaeth sylfaenol y gellir eu dilyn i reoli risg:

- trosglwyddo'r canlyniadau ariannol i drydydd partïon neu eu rhannu nhwosgoi'r gweithgaredd sy'n creu'r risg yn gyfan gwbl
- rheoli neu leddfu'r risg
- ei dderbyn neu ei asesu fel risg na ellir ei osgoi os yw'r gweithgaredd am barhau.

Mae bod yn ymwybodol o risgiaua'u rheoli yn dasg syml sy'n cynnig modd i ymddiriedolwyr ddatblygu mesurau i sicrhau cynaliadwyedd eu helusen a rhagweld unrhyw broblemau posibl a'u hosgoi. Mae gweithdrefnau syml i fesur risg yn cynnwys cymryd mwy o ofal i archwilio contractau'n ofalus, datblygu cynllun cyllideb ac ariannol, prynu yswiriant, gwybod am bolisïau'r llywodraeth drwy newyddion y sector. Bydd cymhlethdod a ffurfioldeb y mesurau hyn yn amrywio rhwng elusennau, yn ôl eu maint, diogelwch eu cyllid, eu lefelau risg a'u gweithdrefnau presennol.

I gael rhagor o wybodaeth am reoli risg, gweler *Elusennau a Rheoli Risg* (CC26).

Ch. Hunanreoleiddio ar waith

Yr egwyddor sy'n sail i hunanreoleiddio yw bod elusennau a chodwyr arian proffesiynol yn gosod ac yn dilyn eu safonau ymarfer codi arian eu hunain, gyda'r nod o wella ffydd a hyder y cyhoedd yn y sector.

Ch1. Beth yw ystyr hunanreoleiddio?

Yr ateb byr

Nid yw'r Comisiwn yn rheoleiddio codi arian fel mater o arfer fel gweithgaredd ynddo'i hun. Bydd ymddiriedolwyr a'u helusennau yn dilyn y Codau Ymarfer Codi Arian a ddatblygwyd gan y sector, drwy'r Sefydliad Codi Arian, ac wedi'u rheoleiddio gan y Bwrdd Safonau Codi Arian. Dylai elusennau sicrhau eu bod yn codi arian yn briodol ac yn gyfrifol, gan ddiogelu ffydd a hyder y cyhoedd yng ngwaith elusennau. Mae'r Comisiwn yn cefnogi'r sector wrth iddo hunanreoleiddio gweithgareddau codi arian.

Yn fwy manwl

Yr egwyddor sy'n sail i hunanreoleiddio yw caniatáu i elusennau a chodwyr arian proffesiynol ddangos arferion da, dileu arferion gwael a chynyddu ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau a'r sector gwirfoddol a chymunedol ehangach. Mae Codau Ymarfer Codi Arian a ddatblygwyd gan y diwydiant yn amlinellu systemau a safonau ymarferol i elusennau godi arian mewn ffyrdd sy'n atebol ac yn dryloyw. Mae'r mesurau hyn yn cynnig modd i'r cyhoedd wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ba mor dda y mae elusennau'n gweithredu a sut mae eu harian yn cael ei godi, ei reoli a'i wario ar fuddiolwyr. Mae atebolrwydd a thryloywder yn hanfodol i berthynas agored a gonest rhwng elusen a'i rhoddwyr, aelodau'r cyhoedd a buddiolwyr.

Os yw'r system bresennol o hunanreoleiddio yn aflwyddiannus, mae pwerau wrth gefn yn Neddf 2006 i gyflwyno rheoliadau statudol i reoli codi arian.

Mae'r Sefydliad Codi Arian (IoF) wedi datblygu'r *Codau Ymarfer Codi Arian*. Mae'r Comisiwn yn cydweithio â'r IoF ar y Codau.

Y Bwrdd Safonau Codi Arian (FRSB) yw'r corff annibynnol sy'n trin cwynion gan y cyhoedd am arferion codi arian eu haelodau sy'n groes i'r Codau. Bydd aelodau FRSB yn defnyddio tic 'Give

with Confidence' FRSB i alluogi'r cyhoedd i adnabod elusennau sy'n cydymffurfio ag arferion da.

Sut mae hunanreoleiddio'n gweithio?

Yr elusen a'i hymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod codi arian yn mynd rhagddo mewn ffordd sy'n gyfreithiol, yn effeithiol ac yn effeithlon. Dylai ymddiriedolwyr sicrhau eu bod yn dilyn arferion da a'u bod wedi ystyried effaith eu hapêl codi arian arfaethedig ar gyllidebau'r elusen a'r risgiau cysylltiedig â'r buddion posibl.

Gall materion godi yng nghyd-destun codi arian sy'n destun rheoleiddio ffurfiol gan y Comisiwn Elusennau a rheoleiddwyr eraill. Mae Rhan D y canllaw hwn yn amlinellu'r materion cyfreithiol y dylai ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol ohonynt.

Ch2. Pwy yw'r cyrff hunanreoleiddio a ble allwch chi gael canllawiau ar arferion da?

Yr ateb byr

Mae'r Sefydliad Codi Arian (IoF) wedi datblygu Codau Ymarfer Codi Arian. Dylai ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol ohonynt a sicrhau bod eu helusennau yn dilyn y Codau hyn. Rhoddir manylion cyswllt yn Adran F3.

Yn fwy manwl

Y fframwaith hunanreoleiddio:Y Sefydliad Codi Arian a'r Bwrdd Safonau Codi Arian (FRSB) yw dau o'r cyrff sector gwirfoddol sy'n gyfrifol am y fframwaith hunanreoleiddio. Mae'r cyrff hyn yn ffynhonnell cyngor a gwybodaeth ar arferion da ym maes codi arian. Gall ymddiriedolwyr sy'n cyflogi codwyr arian proffesiynol neu staff sy'n codi arian adnabod y rhai sy'n dilyn arferion da drwy wirio a ydynt yn aelodau o IoF neu FRSB, neu os yw'n briodol, y Gymdeithas Rheoleiddio Codi Arian Cyhoeddus.

Y **Sefydliad Codi Arian (IOF)** yw'r corff proffesiynol sy'n cynrychioli codi arian yn y DU. Mae IoF yn cynhyrchu canllaw i ymddiriedolwyr ar godi arian. Mae hefyd wedi datblygu *Codau Ymarfer Codi Arian*, sy'n cynrychioli meincnod o arferion codi arian da. Fe restrir y Codau yn Adran F4.

Mae'r **Bwrdd Safonau Codi Arian (FRSB)** yn delio â chwynion am dorri Codau Ymarfer Codi Arian IoF. Mae aelodau FRSB yn dilyn Codau Ymarfer Codi Arian IoF ac Addewid Codi Arian FRSB yn ogystal â defnyddio tic 'Give with Confidence' FRSB (i'w weld isod) er mwyn i'r cyhoedd allu adnabod elusennau a chodwyr arian proffesiynol sy'n cydymffurfio ag arferion da.

FRSB
give with confidence

Cyrff hunanreoleiddio arbenigol

Cymdeithas Rheoleiddio Codi Arian Cyhoeddus (PFRA) yw'r corff aelodaeth gwirfoddol ar gyfer rhoddion debyd uniongyrchol drwy godi arian wyneb-yn-wyneb ac o ddrws i ddrws. Mae PFRA yn hybu ac yn gweithredu Cod Gweithgaredd Wyneb-yn-Wyneb IoF, ei ganllawiau arfer da ei hun ac mae'n cydlynu casgliadau stryd gyda chyrff trwyddedu lleol.

Sylwch, mae nifer o sefydliadau eraill sydd wedi ymrwymo i gefnogi a darparu cyngor a gwybodaeth am ddulliau codi arian penodol. Fel arfer nid oes gan y sefydliadau hyn yr un lefel o gyfrifoldeb ar gyfer delio â chwynion am dorri arferion codi arian. Mae IoF yn cadw rhestr o sefydliadau sydd i'w gweld ar wefan IoF.

Ch3. Sut gall elusennau sicrhau aelodau'r cyhoedd eu bod yn cyfrannu at achos dilys?

Yr ateb byr

Gall elusennau sicrhau'r cyhoedd eu bod yn rhoi i achos dilys drwy fod yn atebol ac yn dryloyw yn eu dulliau llywodraethu, gweithrediadau a dulliau codi arian a sut mae'r elusen yn gwasanaethu ei buddiolwyr.

Yn fwy manwl

Dylai elusennau fod yn barod i ateb cwestiynau gan aelodau'r cyhoedd megis:

- Beth yw amcanion a chenhadaeth yr elusen a phwy yw'r buddiolwyr?
- Sut mae amcanion a chenhadaeth yr elusen wedi cael eu cyflawni yn y flwyddyn ddiwethaf?
- Sut mae'r elusen yn bwriadu cyflawni ei hamcanion yn y flwyddyn i ddod?
- Sut mae'r elusen yn bwriadu defnyddio'r arian a godwyd yn yr apêl?
- Beth fydd yn digwydd i'r arian dros ben os ydynt yn codi mwy nag sydd ei angen ar gyfer y diben penodol?

Mae'r Comisiwn Elusennau yn argymell bod codwyr arian:

- yn gallu cynhyrchu trwydded awdurdod lleol neu drwydded heddlu ddilys
- lle y bo'n briodol, gwneud datganiad deisyfu (gweler Rhan D7 y canllaw hwn)
- gwisgo bathodyn adnabod swyddogol o'r elusen neu'r codwr arian proffesiynol
- cael cynhwysydd casglu wedi'i selio gyda rhif cofrestru ac enw'r elusen arno sy'n cyfateb â'r manylion ar eu bathodyn adnabod
- gallu dweud wrth aelodau'r cyhoedd sut i gysylltu â'r elusen yn uniongyrchol a sut i roi drwy ddefnyddio dulliau eraill
- gallu profi bod caniatâd yr elusen ganddynt i gasglu

Mae'n rhaid i godwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol, yn ôl y gyfraith, ddatgan faint o'r rhodd gaiff ei dalu i'r elusen a dylent allu cynhyrchu copi o gytundeb ysgrifenedig â'r elusen.

Yn olaf, mae'n ofynnol i'r elusen gan Ddeddf 1993 i gyflenwi copi o'u cyfrifon blynyddol diweddaraf i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn am gopi. I elusennau gydag incwm dros £25,000, mae adroddiadau blynyddol a chyfrifon i'w gweld ar Gofrestr Elusennau y Comisiwn, ynghyd â gwybodaeth ddefnyddiol arall am yr elusen megis maint, amcanion, hanes ariannol, gweithgareddau ac incwm. I elusennau sy'n is na'r trothwy hwn, mae gwybodaeth am amcanion, hanes ariannol, cyfrifon a gweithgareddau i'w gweld ar y gofrestr yn y Gofrestr Elusennau.

Mae Atebolrwydd a Thryloywder Cod Codi Arian y Sefydliad Codi Arian yn rhoi canllawiau defnyddiol i elusennau.

D. Codi arian a'r gyfraith

Mae rhai gweithgareddau codi arian yn destun rheoleiddio penodol. Mae'r rhan hon o'r canllaw yn disgrifio'r prif reoliadau y mae angen i ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol ohonynt.

D1. Sut dylai elusen adrodd am godi arian i'r cyhoedd a rhoddwyr?

C

Yr ateb byr

Ar gyfer elusennau gydag incwm gros dros £50,000 y mae'n ofynnol iddynt gael archwiliad ariannol, mae'r Datganiad o Arferion Cymeradwy yn ei gwneud hi'n ofynnol i ymddiriedolwyr gynnig sylwadau ar unrhyw weithgarwch codi arian a wnaed yn ystod y flwyddyn. Gallai fod yn rhywbeth defnyddiol i elusennau llai ei wneud hefyd.

Yn fwy manwl

Mae'r Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Elusennau a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban ac mae'n rhoi cyfarwyddiadau ar sut y disgwylir i elusennau adrodd am eu gweithgareddau, incwm a gwariant a'u sefyllfa ariannol yn eu hadroddiad blynyddol a chyfrifon.

Mae'r SORP yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr adrodd am y gweithgareddau codi arian a wnaed gan yr elusen yn ystod y flwyddyn. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys manylion am berfformiad yn erbyn yr amcanion a osodwyd ar gyfer y gweithgareddau codi arian. Dylai hefyd gynnig sylwadau ar unrhyw wariant ar weithgareddau codi arian yn y dyfodol yn seiliedig ar eu strategaeth incwm ac esbonio'r effaith ar elw codi arian y flwyddyn hon a'r incwm disgwyliedig i'w gynhyrchu yng nghyfnodau yn y dyfodol. Mae'n ofynnol i elusennau gydag incwm gros dros £500,000 i ddilyn argymhellion y SORP yn llawn.

Disgwylir i bob elusen gofrestredig gynhyrchu adroddiad blynyddol a chyfrifon sy'n esbonio o ble y daw ei harian a sut mae'r elusen yn defnyddio'r arian. Fodd bynnag, mae'r SORP dim ond yn gymwys os yw'r

elusen yn paratoi cyfrifon croniadau. Mae cyfrifon croniadau yn adrodd am weithgareddau ariannol ar sail pryd ddigwyddodd y gweithgaredd, yn hytrach na phryd y derbyniwyd ac y gwariwyd yr arian.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler *Cymorth gyda pharatoi Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau.*

D2. Oes rhaid i elusennau dalu treth ar yr arian a godant?

C

Yr ateb byr

Efallai y gall elusennau elwa ar TAW a gostyngiadau treth uniongyrchol ond mae amodau yn gymwys.

Yn fwy manwl

Digwyddiadau codi arian a TAW

Dylai elusennau ystyried goblygiadau treth unrhyw ddigwyddiad codi arian a gynhelir. Mewn rhai achosion, gall elusennau fod yn gymwys ar gyfer eithriad TAW. I gael rhagor o wybodaeth ac i weld a yw digwyddiad eich elusen yn gymwys i'w eithrio, gweler canllawiau HMRC ar elusennau a TAW.

Rhoddion treth-effeithiol (Cymorth Rhodd)

Dylai ymddiriedolwyr ddefnyddio'r cynlluniau gostyngiad treth sydd ar gael i gynyddu incwm eu helusen. Un ffordd y gall ymddiriedolwyr elusen wneud y mwyaf o werth y rhoddion arian a dderbyniant gan drethdalwyr y DU yw sicrhau bod y rhoddion wedi'u cynnwys o fewn y cynllun Cymorth Rhodd. Mae'n rhaid i elusennau sicrhau eu bod yn cael datganiadau Cymorth Rhodd wedi'u cwblhau gan eu rhoddwyr er mwyn elwa ar y cynllun. Mae IoF hefyd wedi cynhyrchu canllaw ar roi treth-effeithiol.

Am restr lawn o ganllawiau elusennau HMRC, ewch i www.hmrc.gov.uk/charities/tax/index.htm and www.hmrc.gov.uk/charities-donors/index.htm

D3. Pan fydd elusen yn codi arian oes gofyniad cyfreithiol i ddatgan ei bod yn elusen?

C

Yr ateb byr

Oes, os ydych yn elusen gofrestredig gydag incwm dros £10,000 y flwyddyn. Mae'n rhaid i'r elusennau hyn ddatgan eu bod yn elusen gofrestredig ar amryw o ddogfennau gan gynnwys ar eu gwefan, hysbysebion a dogfennau eraill megis derbynebion. Mae'r gofyniad hwn yn estyn i unrhyw rybuddion, hysbysebion neu ddogfennau a ddefnyddir i godi arian. Mae rheolau ychwanegol ar gyfer elusennau sydd hefyd yn gweithredu yn yr Alban.

Yn fwy manwl

Mae adran 5 o Ddeddf 1993 yn dweud bod rhaid i elusennau cofrestredig gydag incwm gros o £10,000 neu fwy yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ddatgan, ar amryw o ddogfennau swyddogol, bod yr elusen yn gofrestredig. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys hysbysiadau, hysbysebion, deunyddiau ar wefannau, anfonebau, derbynebion a dogfennau eraill a gyhoeddir gan yr elusen neu ar ei rhan ac sy'n ceisio darbwyllo'r darllenydd i roi arian neu eiddo i'r elusen. Mae hyn yn cynnwys ceisio cael tanysgrifiadau aelodaeth.

Mae'n arfer da i gynnwys eich rhif elusen gofrestredig ar eich gwefan ac ar bob gohebiaeth. Gall hyn roi hyder i roddwyr ac aelodau'r cyhoedd bod eich elusen yn gyfreithlon a'u galluogi i ymchwilio i'ch elusen ar Gofrestr Elusennau y Comisiwn.

Mae elusennau yn yr Alban yn cael eu rheoleiddio gan Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) ac yn ddarostyngedig i gyfraith yr Alban. Os yw elusen sydd wedi'i sefydlu o dan gyfreithiau Cymru a Lloegr yn dymuno codi arian yn yr Alban, dylai wirio a oes rhaid iddi gofrestru fel elusen hefyd gydag OSCR. Mae'r cyhoeddiadau a'r dudalen ganllaw ar wefan OSCR yn rhoi canllawiau ar y pwnc hwn wedi'i anelu'n benodol at elusennau Cymru a Lloegr.

D4. Pa weithgareddau codi arian sy'n destun rheoleiddio penodol?

C

Yr ateb byr

Mae rheoliadau penodol ar gyfer casgliadau cyhoeddus (casgliadau stryd, casgliadau o ddrws i ddrws, casgliadau wyneb-yn-wyneb), codi arian yn cynnwys codwyr arian proffesiynol, codi arian yn cynnwys cyfranogwyr masnachol, staff elusennau sy'n cael eu talu i godi arian mewn mannau cyhoeddus a lotrïau.

Mae cyfreithiau a rheoliadau eraill hefyd sy'n effeithio ar godi arian a all fod yn gymwys megis diogelu data, amddiffyn plant a'r system dewis ffôn.

Yn fwy manwl

Mae'r gweithgareddau codi arian isod yn amodol ar ofynion cyfreithiol penodol, yn dibynnu ar sut y cânt eu strwythuro ac a yw codwyr arian proffesiynol neu gyfranogwyr masnachol yn ymwneud â'r gweithgareddau. Mae rhestr o'r ddeddfwriaeth berthnasol y mae'n rhaid i elusennau gydymffurfio â hi i'w gweld yn Adran F1.

Mae'r holl godi arian sy'n cynnwys cofnodi neu gymryd manylion personol yn ddarostyngedig i gyfreithiau diogelu data. Dylai elusennau sy'n defnyddio codi arian wyneb-yn-wyneb, codi arian ar-lein, post uniongyrchol, digwyddiadau, codi arian darlledu neu ffôn sy'n trin manylion personol megis enwau, manylion cyswllt a manylion cerdyn debyd a chredyd fod yn ymwybodol o Ddeddf Diogelu Data 1998 a chydymffurfio â hi. I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Casgliadau cyhoeddus

Pan fydd elusen yn cynnal casgliad cyhoeddus, rhaid cael trwydded gan yr awdurdod lleol, neu mewn rhai achosion, yr Heddlu Metropolitan. Rhaid i godwyr arian roi datganiad deisyfu, gyda manylion ynghylch sut y cânt eu talu, i'r rhoddwr.

Gweithgareddau hapchwarae

Mae lotrïau, bingo, rafflau a gweithgareddau hapchwarae eraill yn cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf Hapchwarae 2005. Mae'r Ddeddf Hapchwarae yn cael ei gweinyddu gan y Comisiwn Hapchwarae.

Codi arian digwyddiadau

Gall fod yn ddarostyngedig i nifer o reoliadau, gan gynnwys cyfreithiau trwyddedu lleol, a'r rhai ar gyfer

trwyddedu alcohol (os oes angen), diogelwch bwyd a diogelu defnyddwyr. Mae Canllaw Diogelwch Arferion Da y Swyddfa Gartref yn rhoi gwybodaeth ar ddiogelwch mewn digwyddiadau bach a digwyddiadau chwaraeon ar y briffordd, ar y ffyrdd ac mewn mannau cyhoeddus. Gallwch wneud cais am gopïau o'r Swyddfa Gartref.

Gweler hefyd *Darparu Alcohol ar Safleoedd Elusennau* (CC27).

Codi arian darlledu a ffôn

Yn ogystal â'r cyfreithiau diogelu data a'r gyfraith elusennau, mae'n rhaid i godi arian darlledu a ffôn gydymffurfio â Rhan II, adran 59 o Ddeddf 1992 gan sicrhau bod hawl gan roddwyr gael ad-daliad os ydynt yn rhoi dros £100. I gael rhagor o wybodaeth gweler Adran D8.

Codi arian dros y ffôn

Dylai elusennau sicrhau nad ydynt yn gwneud galwadau dieisiau i rifau sydd wedi'u cofrestru ar y System Dewis Ffôn (TPS). Gall elusennau barhau i ffonio rhoddwyr ar TPS os oes perthynas barhaus ganddynt â nhw ac maen nhw wedi cytuno i'r elusen gysylltu â nhw.

Codi arian sy'n cynnwys plant

Mae codi arian sy'n cynnwys plant yn ddarostyngedig i gyfreithiau amddiffyn plant. Dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant gael eu fetio yn unol â'r cyfreithiau amddiffyn plant perthnasol. Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu *Diogelu Plant: Diogelu Plant yn eich Sefydliad.*

Codi arian ar-lein

Mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 a Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr (Gwerthu o Bell) 2000.

Codi arian sy'n cynnwys codwyr arian proffesiynol, cyfryngwyr masnachol a chodwyr ariannol sy'n cael eu talu gan yr elusen.

Yn ol Rhan II, adran 60 o Ddeddf 1992 mae'n rhaid i'r codwyr arian a restrir uchod wneud datganiad deisyfu sy'n hysbysu'r rhoddwr ynghylch sut y cânt eu talu. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn Adrannau D7, E1 ac E2. Mae cyfranogwyr masnachol a chodwyr arian proffesiynol hefyd yn ddarostyngedig i reoliadau yn y Ddeddf Elusennau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i elusennau gael cytundeb codi arian â chodwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol cyn codi arian. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn Rhan E.

Casgliadau o ddrws i ddrws

Mae elusennau sy'n casglu o ddrws i ddrws yn yn ddarostyngedig i Ddeddf Casgliadau o Dy i Dy 1939 a chyfreithiau trwyddedu lleol..

Nid yw codi arian cymynrodd yn ddarostyngedig i unrhyw gyfreithiau arbennig ond mae'n destun i'r egwyddor gyfreithiol gyffredinol o 'ddylanwad gormodol'.

Yn ogystal, dylai elusennau fod yn ymwybodol y gall fod goblygiadau treth os ydynt yn ymgymryd â rhai mathau o weithgarwch codi arian. Cewch fanylion pellach yn ein canllaw Ymddiriedolwyr Masnachu a Threth (CC35) ac ar wefan Cyllid a Thollau EM; mae'r manylion cyswllt i'w gweld yn Rhan F.

D5. All elusennau gynnal lotrïau?

C

Yr ateb byr

Gallant, ond mae'n rhaid i ymddiriedolwyr gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol o dan arolygaeth y Comisiwn Hapchwarae, Rhan II o Ddeddf 1992 ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall yn ôl sut a ble y mae'r codi arian yn digwydd.

Yn fwy manwl

Lotrïau yw trefniadau lle mae pobl yn talu i gymryd rhan i gael y cyfle i ennill gwobr, ac maent yn fath o hapchwarae. Mae rafflau, tombolas a swîps i gyd yn fathau o loteri. Mae hapchwarae yn cael ei reoleiddio ym Mhrydain Fawr gan y Comisiwn Hapchwarae a dylai ymddiriedolwyr sy'n ystyried cynnal loteri gysylltu â nhw i gael gwybod a oes angen trwydded arnynt.

Mathau gwahanol o lotrïau:

Mae amrywiaeth o wahanol fathau o lotrïau. Dyma'r rhai sy'n fwyaf perthnasol i elusennau a chodi arian.

- **Lotrïau cymdeithas fawr.** Lotrïau sengl yw'r rhain sydd â gwerthiant tocynnau o dros £20,000 neu os yw sefydliad yn gwerthu mwy na £250,000 o docynnau'r flwyddyn. Mae'n rhaid iddynt gael eu trwyddedu gan y Comisiwn Hapchwarae.
- **Lotrïau cymdeithasau bach.** Lotrïau yw'r rhain lle mae gwerthiant tocynnau mewn un loteri yn £20,000 neu lai neu pan fydd sefydliad yn cymryd £250,000 neu lai o bob loteri yn yr un flwyddyn galendr. Nid oes angen trwydded ar eu cyfer, ond rhaid iddynt gael eu cofrestru gyda'r awdurdod lleol perthnasol.
- **Lotrïau anfasnachol atodol.** Lotrïau yw'r rhain sy'n cael eu cynnal mewn digwyddiadau lle mae'r holl docynnau yn cael eu gwerthu ac mae'r enillydd yn cael ei ddewis yn y digwyddiad ac mae'r holl arian a godir yn y digwyddiad yn mynd at ddibenion nad ydynt er budd preifat neu fasnachol. Nid oes angen eu cofrestru, ond rhaid iddynt gael eu rhedeg yn unol â'r rheoliadau perthnasol (Rheoliadau Deddf (Lotrïau Anfasnachol Atodol) Hapchwarae 2007). Mae'r rhain yn cyfyngu'r cyfanswm costau y gellir eu didynnu ar gyfer gwobrau (£500 ar hyn o bryd) a chostau gweinyddol (£100 ar hyn o bryd).

Hefyd bydd angen cydymffurfio â'r darpariaethau codi arian yn Rhan II o Ddeddf Elusennau 1992 os ydynt yn gymwys.

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol, a dylent gysylltu â'r Comisiwn Hapchwarae i gael rhagor o wybodaeth; mae'r manylion cyswllt i'w gweld yn Rhan F2 o'r canllaw hwn.

Gweler amodau trwydded a chod ymarfer y Comisiwn Hapchwarae.

Mae'r Comisiwn Hapchwarae hefyd yn cynhyrchu canllawiau defnyddiol i elusennau ar sut i redeg a hyrwyddo lotrïau a gweithgareddau hapchwarae eraill, megis:

- *Cynnal loteri*
- *Cynnal lotrïau bach*
- *Hybu loterïau cymdeithas ac awdurdod lleol*
- *Cyngor ar hapchwarae a betio anfasnachol a phreifat*
- *Noson rasys, noson gasino canllaw cyflym*

D6. Oes angen caniatâd ar elusen i gasglu arian yn gyhoeddus?

C

Yr ateb byr

Oes, ar gyfer casgliadau stryd a chasgliadau o ddrws i ddrws. Rhaid i unrhyw elusen sy'n ymgymryd ag un o'r casgliadau hyn gael caniatâd gan yr awdurdod trwyddedu perthnasol, naill ai'r awdurdod lleol neu, mewn rhai ardaloedd, yr Heddlu Metropolitan. Efallai y bydd angen cydsyniad perchennog neu landlord ar gyfer casgliadau cyhoeddus eraill.

Yn fwy manwl

Casgliadau cyhoeddus yw deisyfu'n bersonol am arian neu roddion ymrwymedig, megis arian parod, debydau uniongyrchol ac archebion sefydlog, mewn ardal lle mae gan y cyhoedd fynediad rhydd, megis ar y stryd. Os yw'r elusen yn rhedeg digwyddiad codi arian, mae'n rhaid i'r elusen gael trwydded i godi arian gan yr awdurdod lleol yn ogystal â thrwydded i redeg y digwyddiad. Mae casgliadau cyhoeddus hefyd yn cynnwys **casgliadau stryd neu werthiannau** sydd fel arfer yn gofyn am drwydded neu ganiatâd gan y corff trwyddedu perthnasol. Mae pwerau

gan awdurdodau lleol i wneud rheoliadau sy'n rheoli'r ffordd y gellir cynnal casgliadau stryd. Bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyhoeddi eu rheoliadau ar eu gwefan, neu gellir eu gweld drwy gysylltu â'r adran drwyddedu berthnasol.

Rhaid i **gasgliadau o ddrws i ddrws** gael trwydded neu Orchymyn Eithrio. Rhoddir trwyddedau naill ai gan yr awdurdod lleol priodol neu, os yw'r casgliad yn Llundain Fwyaf, yr Heddlu Metropolitan neu Ddinas Llundain.

Gall Gorchmynion Eithrio gael eu rhoi gan:

- y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet - am gasgliad dros ardal eang, Cymru neu Loegr gyfan neu ran sylweddol ohoni (bydd ceisiadau am y gorchmynion hyn yn cael eu trin gan y Swyddfa dros Gymdeithas Sifil)
- yr heddlu lleol - ar gyfer casgliad lleol i'w gwblhau o fewn cyfnod byr

Mae'r term 'casgliad' yn y cyd-destun hwn yn cynnwys ymweliadau o dŷ i dŷ, i dafarnau (ond nid am gasgliad sengl mewn tafarn unigol), ac i swyddfeydd a ffatrïoedd i apelio am arian, neu am eiddo arall (dillad, er enghraifft), neu i werthu pethau ar y sail y bydd rhan o'r enillion yn mynd at elusen. Ar hyn o bryd, rheolir y casgliadau hyn gan Ddeddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939 a Rheoliadau Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1947 a 1963.

Mae **Deddf 2006** yn cynnwys darpariaethau ar gyfer trefn reoleiddio newydd ar gyfer casgliadau elusennol cyhoeddus. Nid yw'r darpariaethau wedi cael eu gweithredu a bydd y pwnc yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r Ddeddf y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2012.

Casgliadau eraill gan y cyhoedd: Gall elusennau gasglu mewn mannau lle mae gan y cyhoedd fynediad rhydd ond ni ystyrir eu bod yn fannau cyhoeddus, ac felly nid ydynt yn ddarostyngedig i reoliadau. Mae hyn yn cynnwys llefydd megis eglwysi, gorsafoedd rheilffordd a mannau cerddwyr mewn canolfannau siopa. Mae'n bosib y bydd angen cael caniatâd y perchennog neu'r landlord ar gyfer y casgliadau yma. Dylai elusennau sicrhau bod hawl ganddynt gynnal casgliadau mewn ardaloedd o'r fath a dylent geisio caniatâd.

D7. Oes rhaid i godwyr arian ddweud wrth roddwyr sut y cânt eu talu?

C

Yr ateb byr

Oes. Mae Deddf 1992 yn ei gwneud hi'n ofynnol i godwyr arian sy'n cael eu talu, gan gynnwys staff elusennau, ymddiriedolwyr sy'n cael eu talu, codwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol, i ddatgan eu statws drwy wneud datganiad deisyfu.

Yn fwy manwl

Mae datganiadau deisyfu yn ofyniad Deddf 1992 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2006) a'u bwriad yw cyfleu gwybodaeth ddefnyddiol i roddwyr. Mae'n ofynnol i'r rhan fwyaf o godwyr arian wneud datganiadau deisyfu, gan gynnwys:

- **codwyr arian proffesiynol** pan fyddant yn gofyn am arian neu eiddo er budd un elusen neu ragor
- **cyfranogwyr masnachol** pan fyddant yn datgan y bydd y cyfraniad yn cael ei wneud i un elusen neu ragor yn ystod menter hyrwyddo
- **chodwyr arian eraill sy'n cael eu talu** sy'n ymgymryd â chasgliadau o ddrws i ddrws neu gasgliadau stryd, megis ymddiriedolwyr, swyddogion a gweithwyr sy'n gweithredu'n swyddogol ar ran eu helusen (neu gwmni cysylltiedig) sy'n cael eu talu am gasglu

Mae'n rhaid i godwr arian sy'n cael ei dalu ddatgan:

- i ba elusen neu elusennau y maent yn codi arian ar ei chyfer neu ar eu cyfer, neu, os yw'n berthnasol, eu bod yn codi arian at ddibenion elusennol ac nid er budd elusen neu elusennau penodol
- y cyfrannau y bydd yr elusennau yn elwa (os ydynt yn codi arian i fwy nag un elusen) neu sut y caiff enillion yr apêl eu dosbarthu i wahanol elusennau (os ydynt yn codi arian at ddibenion elusennol)
- a ydynt yn swyddog neu'n weithiwr elusen neu gwmni cysylltiedig neu'n ymddiriedolwr sefydliad o'r fath ac yn gweithredu fel casglwr yn y rhinwedd hwnnw
- eu bod yn cael eu talu am weithredu fel swyddog, gweithiwr neu ymddiriedolwr, neu am weithredu fel casglwr

Mae'n rhaid i godwr arian proffesiynol, yn ogystal â'r gofynion uchod, ddatgan sut mae eu tâl, mewn perthynas â'r apêl, i'w gyfrifo a swm y tâl hwnnw.

Mae datganiadau deisyfu cyfranogwr masnachol yn amrywio o godwyr arian eraill sy'n cael eu talu. Mae'n rhaid i gyfranogwr masnachol nodi'n glir:

- pa elusen neu elusennau fydd yn elwa o'r fenter hyrwyddo
- os bydd mwy nag un elusen yn elwa o'r fenter, ym mha gyfrannau y bydd yr elusennau yn elwa
- pha gyfran o enillion y nwyddau, gwasanaethau neu fenter hyrwyddo gaiff ei rhoi i'r elusen neu'r elusennau, neu gyfanswm y rhodd sydd i'w roi i'r elusen o ganlyniad i werthu nwyddau, gwasanaethau neu gynnal y fenter hyrwyddo

Mae'r Swyddfa dros Gymdeithas Sifil wedi cynhyrchu canllawiau manwl ar ddatganiadau deisyfu manwl.

D8. Oes rheolau arbennig ar gyfer apeliadau darlledu ac apeliadau ffôn?

C

Yr ateb byr

Oes, o fewn amserlen benodol mae hawl gan y rhoddwyr wneud cais am ad-daliad.

Yn fwy manwl

Mae Deddf 1992 yn cynnwys gofynion arbennig am ddatganiadau ysgrifenedig ac ad-daliadau mewn perthynas â chodi arian dros y ffôn ac apeliadau a ddarlledir. Os yw rhoddwr yn talu £100 neu ragor i godwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol, waeth faint y mae'r elusen yn ei dderbyn, mae gan y rhoddwr yr hawl i ad-daliad os gofynnir amdano o fewn saith diwrnod naill ai ar ôl derbyn y datganiad ysgrifenedig gofynnol gan y codwr arian ffôn neu oddi wrth yr apêl ddarlledu. Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i unrhyw ddull talu a ddefnyddir wrth ymateb i ymgyrch codi arian dros y ffôn a thalu trwy gerdyn credyd neu ddebyd mewn ymateb i apêl ddarlledu.

Mae'n rhaid i elusennau sy'n rhedeg apeliadau ffôn a darlledu hefyd gydymffurfio â diogelu defnyddwyr (Rheoliadau (Gwerthu o Bell) Diogelu Defnyddwyr 2000 a Rheoliadau Diogelu

Mae gwybodaeth bellach yng nghanllaw codi arian y Swyddfa dros Gymdeithas Sifil.

D9. All fy elusen redeg apêl drychineb?

C

Yr ateb byr

Mae rhedeg apêl drychineb yn dibynnu ar amcanion a chwmpas daearyddol eich elusen.

Hyd yn oed os yw o fewn amcanion eich elusen i redeg apêl drychineb, dylai ymddiriedolwyr ystyried yn gyntaf a ydynt yn y sefyllfa orau i drefnu a rhedeg apêl o'r fath neu a yw elusennau eraill mewn sefyllfa well i wneud hynny.

Yn fwy manwl

Pan fydd trychinebau'n digwydd, bydd elusennau'n chwarae rôl bwysig mewn ymateb i'r argyfwng, gan ddarparu cymorth a chefnogaeth fawr ei hangen i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan yr argyfwng. Cyn lansio'r apêl, dylai ymddiriedolwyr ystyried a yw'n briodol ac yn gyfreithiol i'w helusen redeg apêl.

Dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod amcanion yr elusen yn caniatáu i'r elusen godi arian ar gyfer yr argyfwng cyn lansio'r apêl. Er enghraifft, os mai amcanion yr elusen yw darparu gofal iechyd i bobl oedrannus yn Lloegr, ni fyddai'n gyfreithiol nac yn briodol i'r elusen godi arian ar gyfer trychineb dramor.

Dylai ymddiriedolwyr hefyd ystyried a yw'n ymarferol i'r elusen ddarparu cymorth a chefnogaeth ar gyfer argyfwng. Os nad oes y gallu neu'r wybodaeth leol gan yr elusen i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ond mae'n dymuno helpu i godi arian, mae dewisiadau eraill megis ailgyfeirio rhoddwyr posibl i elusen neu gorff mantell sydd mewn sefyllfa well i helpu neu godi arian ar ran elusen arall a chyfeirio'r arian i'r

elusen neu'r corff mantell sy'n gweithio yn ardal yr argyfwng.

Mae apeliadau trychineb diweddar wedi dangos y dylai elusennau fod yn ofalus wrth eirio eu hapeliadau. Cododd apeliadau tsunami 2004 fwy o arian nag yr oedd yr elusennau yn gallu ei ddefnyddio. Mae'r Comisiwn yn argymell yn gryf bod elusennau yn gwneud darpariaeth yng ngeiriad yr apêl ar gyfer sut y byddai'r elusen yn delio â naill ai arian dros ben na ellir ei ddefnyddio at y diben, neu ddiffyg. I gael rhagor o wybodaeth am apeliadau aflwyddiannus gweler Adran Dd1.

Mae'r Comisiwn yn argymell yn gryf bod materion yn cael eu hystyried yn ofalus cyn dechrau elusen newydd mewn ymateb i argyfwng. Mae gan asiantaethau cymorth sefydledig rwydweithiau, isadeiledd, arbenigedd a systemau gwell i ymateb yn gyflym i argyfyngau. Mae'r Comisiwn yn cynghori unigolion sy'n dymuno cynorthwyo i gysylltu ag asiantaeth gymorth sefydledig i wirfoddol eu hamser a'u harbenigedd yn lle hynny.

Gweler *Apeliadau Adeg Trychineb* (CC40) ac *Elusennau sy'n gweithio'n Rhyngwladol* i gael rhagor o wybodaeth.

D10. Allwn ni godi arian i elusennau eraill?

C

Yr ateb byr

Gallwch, os yw amcanion yr elusen dderbyn yn cyfateb ag amcanion eich elusen chi. Dylai rhoddwyr hefyd gael gwybod sut y caiff arian ei ddyrannu (boed i un elusen arall yn unig neu'n gyfrannol i bob elusen). Mewn apeliadau o'r fath, dylai ymddiriedolwyr hefyd gael caniatâd i godi arian gan yr elusen dderbyn i godi arian ar ei rhan.

Yn fwy manwl

Gall elusennau godi arian i elusennau eraill os yw eu hamcanion yn caniatáu hynny. Cyn bod trefniadau ar gyfer apêl yn cael eu trefnu'n derfynol, dylai'r elusen codi arian drafod â'r corff dderbyn ar ba delerau y caiff yr arian apêl ei drosglwyddo ac efallai y bydd am ystyried atodi amodau ar sut y caiff yr arian ei ddefnyddio. Pan fydd enillion codi arian wedi cael eu trosglwyddo byddant y tu allan i reolaeth yr elusen codi arian.

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr hefyd sicrhau bod y diben y maent yn codi arian ar ei gyfer yn cyfateb ag amcanion eu helusen a bod y dull codi arian arfaethedig yn ffordd briodol o'u hyrwyddo. Er enghraifft, mae amcanion nifer o elusennau wedi'u cyfyngu i ardal leol. Ni all elusennau o'r fath godi arian yn briodol at ddiben y tu allan i'r ardal honno.

Dylai elusennau derbyn ystyried tarddiad yr arian a'r dulliau a ddefnyddiwyd i'w godi (gweler Adrannau Dd3 ac Dd4). Mae enw da elusen yn ased allweddol a gall gael ei staenio'n hawdd drwy gysylltiadau â chodi arian diegwyddor. Dylai elusennau ystyried materion risg mewn perthynas â phartneriaeth ag elusen arall (gweler Adran C4).

Dd. Materion codi arian

Gall codi arian greu nifer o sialensiau i elusen. Mae rhan hon y canllaw yn mynd i'r afael â rhai materion a chwestiynau cyffredin.

Dd1. Beth yw 'apêl aflwyddiannus'?

C

Yr ateb byr

Gall apêl fethu mewn dwy ffordd: gallai godi arian annigonol neu fwy o arian na diben yr apêl. Os nad yw apêl am bwrpas penodol yn codi digon o arian, gall fod hawl gan roddwyr gael ad-daliad. Os yw'n codi gormod o arian, gall fod angen awdurdodiad cyfreithiol neu gynllun gan y Comisiwn cyn y gellir cyfeirio'r arian dros ben at ddiben tebyg. Gall y materion hyn fod yn gostus o ran amser ac adnoddau, felly dylai ymddiriedolwyr gymryd camau i atal hyn rhag digwydd os yw'n bosibl.

Yn fwy manwl

Bydd apêl yn methu pan na ellir defnyddio peth o'r arian neu'r holl arian ar gyfer y dibenion a nodwyd yn yr apêl. Efallai bod hyn oherwydd na chafodd digon o arian ei godi neu oherwydd bod arian dros ben ar gael ar ôl i'r diben gael ei gyflawni.

Atal apeliadau aflwyddiannus

Dylai ymddiriedolwyr gymryd camau i atal apeliadau rhag methu. Wrth lunio apeliadau ar gyfer diben elusennol penodol megis adeiladu neuadd bentref, dylai'r ymddiriedolwyr bob amser ystyried cynnwys diben eilaidd, ehangach o fewn amcanion yr elusen, y gellid defnyddio arian ar ei gyfer yn awtomatig os nad oes modd ei ddefnyddio at ddiben gwreiddiol yr apêl. Er enghraifft:

'Rydym yn codi arian i brynu sganiwr ar gyfer yr ysbyty. Os, am unrhyw reswm annisgwyl, na allwn brynu'r sganiwr, neu os oes arian dros ben, byddwn yn defnyddio'r rhoddion i brynu offer mawr ei angen ar gyfer yr ysbyty.'

Fel arall, gall elusennau wneud apêl am eu dibenion cyffredinol, er enghraifft:

'Dyma un o'r prosiectau rydym yn eu rhedeg i gefnogi ein buddiolwyr. I gefnogi hyn a phrosiectau eraill, cyfrannwch at ein helusen.'

Mae apeliadau aflwyddiannus yn creu straen diangen a bydd costau staffio a materion gweinyddol yn codi. Mae cynnwys diben eilaidd, elusennol ehangach yn eich apêl yn golygu nad yw arian elusennol wedi'i gyfyngu ac nid oes unrhyw risg o apêl aflwyddiannus.

Pan fydd apêl yn methu

Mae Deddf 1993 yn trin arian dros ben ac arian annigonol yn wahanol. Os na chodwyd digon o arian a/neu ni chyflawnwyd diben yr apêl, fe'i gelwir yn **fethiant cychwynnol**; os yw'r diben wedi cael ei gyflawni ac mae arian dros ben, fe'i gelwir yn **fethiant dilynol**.

Methiant cychwynnol yw pan na fydd digon o arian yn cael ei godi at y diben sydd i'w gyflawni. Oni bai bod yr apêl wedi datgan beth fyddai'n digwydd i unrhyw arian heb ei ddefnyddio, dyletswydd yr ymddiriedolwyr yw ceisio dychwelyd rhoddion i'r rhoddwyr y gellir eu hadnabod.

Pan fydd yr ymddiriedolwyr wedi cyflawni eu rhwymedigaethau i gysylltu â rhoddwyr a, lle y bo'n gymwys, wedi dychwelyd rhoddion, gall y Comisiwn Elusennau wneud cynllun sy'n caniatáu i unrhyw arian sy'n weddill gael ei ddefnyddio at ddibenion tebyg.

Methiant dilynol yw pan fydd pwrpas yr apêl heb ei ateb ond mae arian dros ben. Os oes arian dros ben ac nid oedd yr apêl wedi pennu beth fyddai'n digwydd i'r arian, dylid cysylltu â'r Comisiwn i gael cyngor a gwybod a fydd angen cynllun neu awdurdodiad cyfreithiol arall er mwyn gallu defnyddio'r arian at ddibenion elusennol tebyg. Nid oes hawl gan roddwyr gael ad-daliad.

I gael rhagor o wybodaeth gweler *Apeliadau Elusennau - osgoi a delio â methiant* (OG53).

Dd2. Faint dylai elusen ei wario ar godi arian?

Yr ateb byr

Nid oes unrhyw swm penodol y dylai elusen ei wario ar gostau codi arian ond dylai ymddiriedolwyr gymryd camau i sicrhau bod costau rhedeg apêl codi arian yn gymesur â'r incwm y mae'n disgwyl ei gynhyrchu. Bydd y gyfran hon yn dibynnu ar broffil yr elusen, y risgiau sy'n codi, a oes trydydd partïon a'r dull codi arian a ddefnyddir.

Yn fwy manwl

Mae costau'n amrywio rhwng gwahanol fathau o godi arian o flwyddyn i flwyddyn. Efallai na fydd lefel costau codi arian sy'n briodol i un elusen yn briodol i elusen arall. Er enghraifft, efallai y bydd rhaid i elusen wario mwy ar farchnata'r apêl codi arian os oes llai o gymorth cyhoeddus gan achos yr elusen honno o'i gymharu ag achosion eraill. Gall costau codi arian amrywio yn dibynnu ar y dull codi arian a ddewisir, pryd a ble y mae'r apêl yn cael ei rhedeg, poblogrwydd yr achos, maint yr elusen ac amgylchiadau annisgwyl megis tywydd gwael yn amharu ar y nifer sy'n mynychu digwyddiad codi arian, apeliadau cystadleuol sy'n fwy poblogaidd a'r dirywiad economaidd. Gall apeliadau gael dibenion eilaidd hefyd megis codi ymwybyddiaeth o'r achos, ymgyrch addysg gyhoeddus neu gall yr apêl gynnwys gweithgaredd y mae buddiolwyr yn cymryd rhan ynddo. Gall y dibenion ychwanegol hyn olygu bod costau'r apêl yn amrywio.

Os yw'r elusen wedi arwyddo cytundeb â chodwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol, gall yr ymddiriedolwyr sicrhau bod y costau'n deg i'r elusen dim ond os ydynt yn ymarfer eu hawl i archwilio cyfrifon a chofnodion y codwr arian proffesiynol neu'r cyfranogwr masnachol a gweld canlyniadau'r fenter eu hunain. Dylai ymddiriedolwyr geisio cyngor proffesiynol os nad ydynt yn siŵr a yw'r cytundeb er lles gorau'r elusen neu beidio.

Fel unrhyw fusnes newydd, gall y costau cychwynnol i fenter newydd fod yn uchel a gall lefel y risg fod yn uchel hefyd. Wrth i'r fenter aeddfedu, dylai'r costau a'r risgiau ariannol leihau. Os yw'r codwr arian proffesiynol wedi cymryd y risg uwch sy'n codi ar gychwyn apêl, dylai ei ffi leihau yn gyffredinol wrth i'r risg leihau. Felly dylai ymddiriedolwyr adolygu unrhyw gytundeb codi arian yn gyson.

Dylai elusennau allu esbonio eu costau a dylent fod yn dryloyw ynghylch faint o arian sy'n cael ei wario a sut mae'r buddiolwyr yn elwa. Bydd costau rhesymol yn codi i elusen effeithiol yn ei gwaith gweinyddol cyffredinol a'i gwaith codi arian. Bydd sicrhau bod y costau hyn yn rhesymol ac addysgu rhoddwyr am y treuliau cyfreithlon hyn yn helpu i feithrin ffydd gyhoeddus.

Dd3. Os yw rhywun yn codi arian ac yn defnyddio enw elusen heb ganiatâd yr ymddiriedolwyr, beth ddylent ei wneud?

C

Yr ateb byr

Os daw'r ymddiriedolwyr yn ymwybodol o godi arian diawdurdod, dylent gymryd camau i sicrhau bod hyn yn dod i ben, gan ddefnyddio pwerau cyfreithiol os oes angen, a bod yr holl roddion yn cael eu trosglwyddo i'w helusen. Os yw'r codwr arian yn ddilys a bu'n gweithredu mewn ewyllys da, gall yr ymddiriedolwyr awdurdodi bod y casgliadau'n parhau ond ar delerau ysgrifenedig a gytunwyd.

Yn fwy manwl

Gall aelodau'r cyhoedd da eu bwriad benderfynu rhedeg apeliadau codi arian i gefnogi achos eich elusen heb geisio eich caniatâd a'ch arweiniad. Er enghraifft, gallai hyn fod yn werthiant cacennau lleol wedi'i drefnu gan aelod o'r cyhoedd oedd heb sylweddoli y dylent ofyn am ganiatâd yr elusen cyn defnyddio enw'r elusen. Mewn achosion o'r fath, gall fod yn fwy priodol i roi caniatâd i godi arian ar ran yr elusen a darparu ychydig o arweiniad i'r trefnydd i sicrhau bod y casgliad yn mynd rhagddo'n gyfreithiol.

Ar gyfer digwyddiadau ar raddfa fwy, megis digwyddiad cinio ac arwerthiant, pan fydd codwr arian yn gweithredu gyda'r bwriadau gorau ac mae'n codi

arian yn effeithiol ac yn atebol, efallai y bydd yr ymddiriedolwyr am awdurdodi y gall yr apêl codi arian barhau ond sicrhau bod cytundeb ysgrifenedig gan y codwr arian â'r elusen, sy'n cydymffurfio ag arferion da a'r holl gyfreithiau a rheoleiddio perthnasol. Mae enw da eich elusen yn ased y dylid ei warchod yn ofalus.

Os bydd gweithgarwch codi arian yn defnyddio enw eich elusen ac mae amheuaeth o dwyll neu ladrad (neu golled oherwydd unrhyw weithgarwch troseddol gwirioneddol neu amheus), dylai'r ymddiriedolwyr adrodd am y mater i'r heddlu. Dylid hysbysu'r Comisiwn Elusennau hefyd.

Mae Deddf 1992 a Rheolaethau 1994 yn galluogi elusennau i geisio gwaharddeb i atal rhywun rhag codi arian yn enw'r elusen:

- os yw'r codwr arian yn defnyddio dulliau ac mae'r elusen yn gwrthwynebu'r dulliau hyn
- os nad yw'r codwr arian yn rhywun addas na phriodol i godi arian ar gyfer yr elusen
- os nad yw'r elusen yn dymuno bod yn gysylltiedig â'r fenter codi arian honno

Rhaid i'r elusen roi rhybudd ysgrifenedig i'r unigolyn sy'n codi arian, o leiaf 28 niwrnod cyn gofyn am waharddeb:

- gan ddatgan ei bod yn gwrthwynebu'r codi arian ar ran yr elusen
- rhoi manylion ei gwrthwynebiad
- gofyn iddo atal codi arian
- ei gynghori oni bydd yn cydymffurfio â'r rhybudd, y gwneir cais am waharddeb

Mae'r defnydd diawdurdod o enw elusen yn fater difrifol a allai niweidio enw da elusen. Nid oes gan yr elusen unrhyw wybodaeth na rheolaeth dros apeliadau codi arian diawdurdod, felly mae'n bosib bod y codwr arian diawdurdod yn torri'r gyfraith elusennau, yn cam-gynrychioli'r elusen i'r cyhoedd neu hyd yn oed yn cyflawni twyll. Os yw ymddiriedolwyr yn ymwybodol o godi arian diawdurdod, dylent weithredu i sicrhau bod unrhyw weithgarwch codi arian diawdurdod yn dod i ben cyn gynted â phosibl.

Mae'r Comisiwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod elusennau a rhoddwyr wedi'u diogelu rhag sgamiau megis apeliadau codi arian ffug a chasglwyr dillad ffug drwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cyhoeddus.

Dd4. All elusen dderbyn rhoddion sydd ag amodau ynghlwm wrthynt?

C

Yr ateb byr

Gall, mae elusennau yn rhydd i dderbyn rhoddion sydd ag amodau ynghlwm, ar yr amod bod yr amodau hyn yn gydnaws â dibenion, blaenoriaethau a gweithgareddau'r elusen.

Os yw'r amodau yn llym iawn ac felly gallent danseilio annibyniaeth yr elusen, efallai y bydd angen gwrthod y rhodd. Mae gwybodaeth bellach i'w chael ar God Ymarfer Codi Arian Derbyn a Gwrthod Rhoddion y Sefydliad Codi Arian.

Mae rhai elusennau wedi dioddef gweithgarwch troseddol oherwydd bod yr elusen wedi cael ei defnyddio i wyngalchu arian. Dylai elusennau fod yn ofalus i adnabod benthyciadau neu roddion posibl sy'n amheus ac adrodd amdanynt i'r Comisiwn Elusennau.

Yn fwy manwl

Rhoi at ddiben penodol: Mae nifer o apeliadau codi arian wedi'u hanelu at benodol yn hytrach na dibenion cyffredinol yr elusen. Mae'n rhaid i'r arian sy'n cael ei roi ar gyfer apêl arbennig gael ei ddefnyddio at y diben hwnnw. Gall rhoddwr atodi amodau at rodd sydd heb fod yn ddadleuol: er enghraifft, gall rhodd i elusen ymchwil meddygol gael amod bod yr arian yn cael ei wario ar ymchwil i glefyd arbennig. Dylai'r elusen ystyried, gan gyfeirio at ei hamcanion a'i gweithgareddau arfaethedig, a yw'n ymarferol i gyflawni'r amod yn yr achos arbennig hwnnw. Mae rhoddion sydd ag amodau ynghlwm yn debygol o greu cronfeydd cyfyngedig at ddibenion cyfrifyddu.

Pryd i ddweud na: Gall fod achosion pan fyddai er lles yr elusen i wrthod rhodd. Os yw'r rhoddwr, er enghraifft, yn mynnu bod yr elusen yn mabwysiadu polisi arbennig neu'n caniatáu i'r rhoddwr gael llais wrth ddewis buddiolwyr, byddai'n rhaid i'r ymddiriedolwyr ystyried yn ofalus iawn a fyddai er lles yr elusen i dderbyn y rhodd. Ni ddylai ymddiriedolwyr ildio eu disgresiwn, ac ni ddylent gyfyngu ar eu disgresiwn oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Gwyngalchu arian neu weithgarwch troseddol arall: Mae'r Comisiwn yn ymwybodol o achosion lle y defnyddiwyd rhoddion neu fenthyciadau i elusennau i hwyluso gwyngalchu arian neu weithgarwch troseddol arall. Dylai fod polisïau a gweithdrefnau gan elusennau i sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r risg hwn, a sicrhau bod ymddiriedolwyr a staff yn effro i unrhyw roddion amheus. Er enghraifft:

- os yw rhoddion mawr neu fenthyciadau di-log yn cael eu cynnig gan unigolion neu sefydliadau nad yw'r elusen yn eu hadnabod
- os yw amodau sydd ynghlwm wrth rodd yn golygu y byddai'r elusen yn gyfrwng yn unig ar gyfer trosglwyddo arian o un unigolyn neu sefydliad i'r llall
- os yw'r rhodd am gyfnod penodol o amser, gan roi'r llog i'r elusen ond gyda'r prif swm i'w ddychwelyd ar ddiwedd y cyfnod penodol, ac o bosibl i unigolyn neu sefydliad arall
- os yw'r rhodd yn cael ei roi mewn arian cyfred dramor, gyda'r ddarpariaeth fel uchod, ond bydd y prif swm yn cael ei ddychwelyd fel siec sterling neu i sefydliad arall

Er y gall rhai o'r enghreifftiau uchod fod yn rhoddion a wnaed mewn ewyllys da, mae ffactorau eraill wedi'u cyfuno â'r enghreifftiau hyn yn gallu rhybuddio'r ymddiriedolwyr y gallai'r rhodd fod yn amheus. Er enghraifft, dylai ymddiriedolwyr ystyried amseriad y rhodd, o ba wlad y daeth, y swm a roddwyd ac amlder y rhoddion. Mewn achosion o'r fath efallai y bydd yr ymddiriedolwyr am wneud ymholiadau pellach cyn derbyn y rhodd, a gallant wrthod y rhodd os nad ydynt yn cael ymatebion boddhaol i'w hymholiadau.

Os yw'r ymddiriedolwyr yn amau mai diben y rhodd yw hwyluso gwyngalchu arian neu weithgarwch troseddol arall efallai, dylent gysylltu â'r heddlu a'r Comisiwn Elusennau. I gael rhagor o wybodaeth gweler canllaw y Comisiwn *Adrodd am Ddigwyddiadau Difrifol.*

Dd5. Sut dylai elusennau reoli cwynion am godi arian?

Yr ateb byr

Dylai elusennau gael trefn gwyno sy'n hygyrch, yn agored ac yn dryloyw, a dylai ddelio â chwynion o fewn amserlen resymol.

Yn fwy manwl

Dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod trefn gwyno gan eu helusennau sy'n hygyrch, yn agored ac yn dryloyw. Drwy gael trefn gwyno ffurfiol, gall yr elusen weithredu i ddiogelu enw ac enw da'r elusen drwy fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n cael eu codi gan aelodau'r cyhoedd yn gyflym ac yn uniongyrchol. Yn arbennig, dylai cwynion am arferion codi arian gan staff neu eraill sy'n codi arian ar eu rhan gael eu trin mewn ffordd amserol drwy'r drefn gwyno er mwyn i ddulliau neu ymagweddau codi arian gwael neu ddadleuol beidio â chael eu hailadrodd yn yr apêl nesaf. Os yw elusennau'n dilyn arferion da, gellir osgoi nifer o gwynion yn gyfan gwbl.

Er enghraifft, gall aelod o'r cyhoedd:

- Gwyno am gynnwys llythyr codi arian. Dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod unrhyw beth sy'n mynd allan yn enw'r elusen yn dilyn arferion da, er enghraifft, nid yw'n fwriadol dramgwyddus neu nid yw'n targedu grwpiau agored i niwed.
- Nodi nad ydynt am gael eu deisyfu am rodd - efallai eu bod wedi ymuno â'r gwasanaeth dewis post neu efallai fod arwydd ar eu cartref yn dweud nad ydynt am dderbyn galwadau diwahoddiad. Dylai elusennau barchu dymuniadau o'r fath a sicrhau bod eu hasiantau a'u cynrychiolwyr yn gwneud hynny hefyd.

Gall cwynion am arferion codi arian ddangos bod elusen yn cael ei rhedeg yn wael neu nid yw'n ystyried bod barn y cyhoedd yn bwysig. Mewn achosion o'r fath gall y Comisiwn Elusennau farnu bod angen ymchwilio. Yn ein Hadroddiad Ymchwil *Lle i Gwyno* (RS11)), argymhellwn y dylai trefn gwyno da sicrhau bod:

- cwyn yn cael ei chydnabod fel cwyn
- atebolrwydd am y gwasanaethau y mae elusen yn eu darparu
- cymorth i bawb sy'n ymwneud â chwynion ac wrth ddelio â chwynion
- y drefn gwyno yn hygyrch i'r rheiny a fydd efallai am ei defnyddio
- cwynion yn cael eu rheoli'n effeithiol;
- mae'r elusen yn elwa drwy ddysgu o gwynion

Ni fydd pawb sy'n cwyno yn fodlon ag ymateb yr elusen ac efallai y byddant am i gorff annibynnol ymchwilio i'w cwyn. Yn yr achos hwn, gall elusennau gyfeirio'r gŵyn at y Bwrdd Safonau Codi Arian sy'n gallu gwneud penderfyniad annibynnol ynghylch cwynion a wnaed yn erbyn ei aelodau pan fydd gweithdrefnau mewnol yr elusen honno wedi'u disbyddu.

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn y Cyhoeddiad *Cwynion am Elusennau* (CC47).

Dd6. Pryd byddai'r Comisiwn yn ystyried cwyn am godi arian?

C

Yr ateb byr

Mae'r Comisiwn yn ystyried cwynion dim ond pan fydd arwyddion o gamreoli difrifol, risg difrifol o niwed i'r elusen a'i chronfeydd, neu arwyddion bod arian a godwyd at ddibenion elusennol neu yn enw'r elusen wedi cael ei gamddefnyddio neu pan fydd ffydd a hyder y cyhoedd wedi cael eu niweidio gan elusen. Fel arall, bydd y Comisiwn yn cyfeirio'r rhan fwyaf o gwynion am arferion codi arian gwael i'r Bwrdd Safonau Codi Arian os yw'n berthnasol.

Yn fwy manwl

Mae'r Comisiwn yn delio â chwynion pan fydd elusen yn niweidio ffydd a hyder cyhoeddus drwy ei gweithgareddau codi arian neu weithgareddau codi arian pobl eraill sy'n gweithio ar ei rhan. Mae pryderon rheoleiddio'r Comisiwn am godi arian wedi'u cyfyngu i sicrhau bod yr arian a godir at ddibenion elusennol ac yn enw'r elusen heb gael ei gamddefnyddio neu mewn perygl fel arall a bod yr ymddiriedolwyr yn cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau cyfreithiol.

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddiwr seiliedig ar risg ac yn gweithredu mewn ffordd gymesur a bydd y Comisiwn yn penderfynu p'un ai i weithredu neu beidio yn ôl yr achos unigol. Mae hyn yn golygu y bydd y Comisiwn yn targedu adnoddau ar y materion sy'n peri'r risgiau mwyaf. Mae

manylion pellach ar ymagwedd y Comisiwn tuag at reoleiddio seiliedig ar risg i'w gweld ar ein gwefan.

Mae nifer o'r cwynion y mae'r Comisiwn yn eu derbyn am godi arian yn ymwneud ag arferion gwael. Gallant ymwneud â phryderon am:

- ddulliau arbennig y mae elusen neu ei hasiant yn eu dewis
- lefel y costau codi arian
- y ffioedd a godir gan godwyr arian yr elusen
- a yw arian y rhoddwr wedi cyrraedd lle y dylai fod wedi cyrraedd

Mae'r potensial gan weithgareddau codi arian i dorri rheoliadau eraill ar wahân i'r gyfraith elusennau. Gall codi arian gael ei gwmpasu gan ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu safonau masnachu, trethu ac, yn dibynnu ar natur y codi arian, hapchwarae. Yn ogystal, bydd unrhyw weithgarwch troseddol arall yn fater i'r heddlu. Os oes tystiolaeth o ymddygiad troseddol difrifol bydd y Comisiwn yn hysbysu'r heddlu os nad yw'r ymddiriedolwyr wedi gwneud hynny eisoes.

Mae enghreifftiau o achosion lle y gall y Comisiwn Elusennau ymyrryd yn cynnwys:

- os yw arian wedi cael ei gamddefnyddio; gallai hyn ddeillio o fethiant yr ymddiriedolwyr i sicrhau rheolaethau mewnol cadarn dros ei hincwm codi arian
- codi arian ar ran elusennau segur, ffug neu elusennau nad ydynt yn bodoli
- enillion neu elw gormodol neu anghymesur gan godwr arian proffesiynol, y mae'n ymddangos eu bod wedi codi o ganlyniad i reolaeth wael gan yr ymddiriedolwyr
- honiadau o weithgareddau codi arian anghyfreithlon, sy'n ymddangos fel petaent yn peri risg ariannol a/neu enw da sylweddol i'r elusen
- buddion ariannol neu eraill difrifol i godwyr arian a sefydliadau codi arian sydd â chysylltiad agos â'r elusen, ei hymddiriedolwyr neu ei gweithwyr. Yn arbennig, bydd y Comisiwn yn ymyrryd os oes gwrthdaro buddiannau sydd fel petaent heb eu rheoli ac mae trafodion rhwng ymddiriedolwyr yr elusen neu sefydliadau sydd â chysylltiad agos â nhw
- thramgwyddau difrifol yn erbyn y gyfraith elusennau o ran gofynion codi arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol

Mae rhagor o wybodaeth am gytundebau â chodwyr arian proffesiynol ac enghreifftiau astudiaeth achos i'w gweld yn Adroddiad y Comisiwn Elusennau *Yn ôl ar y Trywydd Iawn.*

E. Elusennau a phartneriaid masnachol

Dylai elusennau sy'n ymgysylltu â chyfranogwyr masnachol a chodwyr arian proffesiynol fod yn ymwybodol bod gofynion cyfreithiol a fydd yn llywodraethu sut y mae cyfranogwyr masnachol a chodwyr arian proffesiynol yn cydweithio ag elusennau a sut mae'r cyhoedd yn cael ei hysbysu.

E1. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cyfranogwr masnachol a chodwr arian proffesiynol?

Yr ateb byr

Busnes craidd codwyr arian proffesiynol yw darparu gwasanaethau codi arian i elusennau. Er enghraifft, mae busnes sy'n gwerthu gwasanaeth apêl codi arian ar y stryd yn darparu codwyr arian stryd hyfforddedig a chyfleusterau prosesu rhoddion yn godwr arian proffesiynol.

Mae cyfranogwyr masnachol yn gwmnïau sy'n hybu eu busnes drwy hysbysebu bod cyfran o'u helw yn cael ei rhoi i un elusen neu ragor. Er enghraifft, mae adwerthwr dillad sydd â chytundeb ag elusen i roi canran o bob crys-T argraffiad cyfyngedig sy'n cael ei werthu i'r elusen, yn gyfranogwr masnachol.

Yn fwy manwl

Er bod y trefniadau â chyfranogwr masnachol neu godwr arian proffesiynol i godi arian i'r elusen yn wahanol iawn, mae'r trefniadau yn cael eu rheoleiddio mewn ffordd debyg. Mae Rhan II o Ddeddf 1992 yn cwmpasu cytundebau codi arian, datganiadau deisyfu a sut y rheolir arian elusennol. Mae gofynion rheoleiddio yn cael eu hesbonio'n fwy manwl yn Adrannau E2, E3 ac E4.

Gall **codwyr arian proffesiynol** ddarparu'r arbenigedd neu'r seilwaith i lansio apêl codi arian nad oes gan yr elusen y gallu i'w ddatblygu'n fewnol. Er enghraifft, mae gan gwmni sy'n darparu gwasanaeth post uniongyrchol i elusennau y lle warws, yr offer argraffu a'r arbenigedd a'r cysylltiadau i anfon ymgyrch post uniongyrchol ar raddfa fawr na fyddai elusen fach yn gallu ei wneud fel arall. Mae'r gost ariannol i'r elusen am y gwasanaeth

hwn yn debygol o fod yn llai na chost sefydlu apêl post uniongyrchol mewnol proffesiynol. Yn achos elusen heb brofiad o bost uniongyrchol sydd am gynnal apêl ar raddfa fawr, untro i ehangu ei sylfaen rhoddwyr, byddai'n benderfyniad ariannol da i ddefnyddio codwr arian proffesiynol.

Gall **cyfranogwyr masnachol** roi cyfle i'r elusen gynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus o'i hachos, sicrhau marchnata am ddim a chael cyfle i godi ei phroffil cyhoeddus. Gall hyrwyddiad gan gyfranogwr masnachol ddal sylw'r cyfryngau a all roi lefel incwm i'r apêl na fyddai wedi bod yn bosibl heb ddefnyddio cyfranogwr masnachol proffil uchel. Yn achos elusen sydd ag achos amhoblogaidd, megis ymchwil i gyflwr meddwl na wyddys llawer amdano, gall partneriaeth â chyfranogwr masnachol fod yn ffordd ddefnyddiol o gyrraedd rhoddwyr newydd a'r cyhoedd.

Y risgiau

Dylai elusennau fod yn ymwybodol bod llunio unrhyw bartneriaeth fasnachol yn creu risgiau newydd y dylai elusen eu hystyried cyn arwyddo unrhyw gytundeb.

Gallai defnyddio codwr arian proffesiynol leddfu rhai o'r risgiau ariannol gan fod y codwr arian proffesiynol yn cymryd cyfran o'r risg o fethu ond fe'i cydbwysir gan y lefel uwch o risg enw da gan fod yr elusen yn ildio peth reolaeth dros ei brand a'i henw da. Enghraifft o hyn fyddai defnyddio codwr arian proffesiynol i redeg apêl codi arian dros y ffôn. Mewn achos o'r fath, bydd y codwr arian proffesiynol yn cymryd cyfran o'r risg ariannol ac felly mae'r risg ariannol yn is i'r elusen na pe byddai'r elusen wedi datblygu a lansio'r apêl yn fewnol, gan sefydlu'r ganolfan alwadau, cyfleusterau prosesu rhoddion a hyfforddi staff. Fodd bynnag, bydd yr elusen yn cymryd mwy o risg enw da drwy ymddiried mewn codwr arian proffesiynol i ddefnyddio ei henw a'i brand yn gyfrifol ac yn ofalus yn ogystal â chaniatáu i staff y codwr arian proffesiynol gynrychioli'r elusen i ddarpar roddwyr.

Mae risgiau eraill yn gysylltiedig â chyfranogwr masnachol hefyd. Er bod y risgiau ariannol yn is yn yr achos hwn, gall y risgiau moesegol ac enw da fod yn uchel iawn. Dylai elusennau fod yn arbennig o wyliadwrus oherwydd gall cyd-frandio neu gysylltu'r elusen yn agos â chwmni achosi problemau os daw i'r amlwg bod y cwmni yn ymgymryd ag arferion anfoesegol neu weithgarwch troseddol. Mae'n rhaid i elusennau ymchwilio'n ofalus i'r cyfranogwr masnachol a dylent ystyried a yw partneriaeth â'r cyfranogwr masnachol yn briodol ac yn unol â gwerthoedd ac amcanion yr elusen. Er enghraifft, byddai partneriaeth â chwmni sydd â hanes amgylcheddol gwael sy'n masgynhyrchu cynhyrchion yn amhriodol i elusen amgylcheddol.

Dylai elusennau ystyried lles gorau'r elusen a'r risgiau cynhenid o bartneriaeth fasnachol â chodwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol o ddifrif cyn arwyddo unrhyw gytundeb codi arian.

E2. Beth ddylai ymddiriedolwyr ei wybod am gydweithio â phartneriaid masnachol?

C

Yr ateb byr

Mae'n rhaid i elusennau a'r codwyr arian proffesiynol neu'r cyfranogwyr masnachol y maent yn cydweithio â nhw, gydymffurfio â rhai rheolau sy'n sicrhau tryloywder y berthynas â'r cyhoedd a gweithredu er mwyn diogelu'r elusen.

Yn fwy manwl

Y gofyniad cyfreithiol

Pan fydd elusen yn defnyddio codwr arian proffesiynol i godi arian ar ei rhan, neu'n arwyddo cytundeb â chyfranogwr masnachol lle mae, er enghraifft, y cyhoedd yn cael ei annog i brynu cynnyrch arbennig ar y ddealltwriaeth y bydd elusen arbennig yn cael rhodd, mae'r rheolau sy'n llywodraethu codwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol yn gymwys. Mae'r rheolau hyn yn Neddf 1992 a Rheoliadau 1994.

Nid yw codi arian proffesiynol neu hyrwyddiadau gan gyfranogwyr masnachol sy'n cynnig budd i elusen neu elusennau arbennig, wedi'i ganiatáu oni bai bod cytundeb ysgrifenedig. Mae'n rhaid i'r cytundeb ysgrifenedig gael ei lofnodi gan bob parti a chynnwys y canlynol:

- enw a chyfeiriad pob parti, dyddiad, hyd y cytundeb a thelerau terfyniad y cytundeb
- datganiad o'i brif amcanion a'r dulliau a ddefnyddiwyd
- rhaid i'r arian gael ei drosglwyddo i'r elusen cyn gynted â phosibl
- rhaid i godwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol sy'n gweithredu ar ran elusen roi gwybod i'r cyhoedd sy'n cyfrannu fanylion yr elusen y maent yn casglu ar ei chyfer a faint y mae'r codwr arian proffesiynol neu'r cyfranogwr masnachol yn ei dderbyn
- rhaid i'r codwyr arian proffesiynol ddatgan y dull a ddefnyddiant i gyfrifo'r tâl a'r swm gwirioneddol, os gwyddys, pan fyddent yn gwneud y datganiad, fel arall rhaid i'r tâl gael ei amcangyfrif a rhaid i'r amcangyfrif gael ei gyfrifo mor fanwl gywir ag sy'n rhesymol bosibl

- rhaid i gyfranogwyr masnachol ddatgan ar gyfer pob cynnyrch neu eitem o wasanaeth a brynir gan aelod o'r cyhoedd union swm neu ganran y pris a dalwyd a chaiff ei roi i'r elusen neu'r elusennau, neu rhaid iddynt ddatgan y swm y maent yn ei roi mewn perthynas â'r fenter hyrwyddo
- os yw mwy nag un elusen yn barti i'r cytundeb, rhaid iddo gynnwys darpariaeth sy'n amlinellu sut y penderfynir ar y gyfran y bydd pob un o'r elusennau yn cael budd ohoni o dan y cytundeb

Mae'r Swyddfa dros Gymdeithas Sifil wedi cynhyrchu canllawiau manwl ar y gofynion.

Arfer da

Mae'n arfer da i ymddiriedolwyr geisio cyngor ar arwyddo cytundebau o'r fath o ffynonellau megis Codau Ymarfer Codi Arian y Sefydliad Codi Arian. Dylai ymddiriedolwyr geisio cyngor cyfreithiol annibynnol wrth arwyddo contract, oherwydd mae cytundebau o'r fath yn cynnig manteision posibl yn aml ond mae risgiau hefyd i'r elusen.

Dylai ymddiriedolwyr nodi bod Rheoliadau 1994 yn darparu ar gyfer archwilio llyfrau, dogfennau neu gofnodion eraill codwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol sy'n ymwneud â'r elusen ac a gedwir at ddibenion y cytundeb. Dylai elusennau fanteisio ar hyn er mwyn sicrhau bod eu helusen yn cael elw teg a llawn o'r trefniadau ac nid yw'r trefniadau yn rhoi taliadau gormodol i'r codwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol ar draul yr elusen.

Gofyniad sylfaenol dyletswydd gofal ymddiriedolwyr yw eu bod yn cael yr elw gorau posibl o unrhyw gysylltiadau masnachol, a gall methu â chynnal arolygiaeth a rheolaeth briodol dros godi arian yn eu henw gael ei ystyried yn gamymddwyn neu gamreoli.

E3. Sut mae elusennau'n ymgysylltu â chyfranogwyr masnachol?

C

Yr ateb by

Mae nifer o elusennau yn teimlo bod llawer ganddynt i'w ennill o bartneriaethau masnachol, yn ogystal ag incwm codi arian, oherwydd gallant ehangu eu sylfaen rhoddwyr, o gynnwys cwsmeriaid y cyfranogwr masnachol ac o ganlyniad i gynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus o'u hachos.

Fodd bynnag, dylai ymddiriedolwyr ddeall yn llawn ganlyniadau posibl cytundebau o'r fath cyn gweithredu. Gallai'r rhain gynnwys risg bod yr elusen yn cael ei hecsbloetio neu'n cymryd rhan yn ddiarwybod mewn gweithgarwch twyllodrus, a allai esgor ar gamau rheoleiddio. Dylai ymddiriedolwyr hefyd gydnabod y risg i enw da a allai godi o ddelio â chyfranogwr masnachol.

Yn fwy manwl

Mae'n rhaid i unrhyw bartneriaeth â chyfranogwr masnachol gael ei llywodraethu gan gytundeb ysgrifenedig. Dylai ymddiriedolwyr fodloni eu hunain bod telerau'r cytundeb er lles yr elusen, ac y bydd yr elusen yn cael lefel briodol o dâl i ddefnyddio ei henw. Gall hyn olygu ymchwilio i'r trefniadau eraill sydd ar gael.

Dylai fod polisi gan yr elusen, wedi'i gymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr, sy'n rheoli sut y gall sefydliadau eraill ddefnyddio ei henw a'i brand.

Y risgiau: Mae'n rhaid i elusennau fod yn ymwybodol er bod manteision i'w cael trwy arwyddo cytundeb cyfranogiad masnachol, mae risgiau posibl hefyd. Efallai na fydd y fenter yn cynhyrchu cymaint o arian ag y mae'r elusen yn ei ddisgwyl neu efallai na fydd yr elusen yn adfer ei chostau. Mae risgiau enw da hefyd. Er enghraifft, gall cwestiynau godi ynghylch moeseg derbyn rhoddion gan gwmnïau sy'n ymwneud â gweithgareddau yr ystyrir eu bod yn groes i ddibenion yr elusen, neu am yr effaith bosibl ar annibyniaeth yr elusen. Dylai elusennau fod yn dryloyw ynghylch unrhyw berthynas sydd ganddynt â phartner masnachol a rhoi'r mesurau diogelwch priodol ar waith.

Cymryd y camau priodol: Cyn arwyddo cytundeb sy'n caniatáu i enw'r cwmni gael ei gysylltu â busnes neu gynnyrch penodol, dylai'r elusen sicrhau, yn ogystal â'r gofynion statudol yr esbonnir yn Adran E2, bod:

- y berthynas yn briodol i'r elusen ac ni fydd yn niweidio ei henw da
- byddai'r fenter yn ffordd briodol ac effeithiol i'r elusen godi arian yn yr amgylchiadau
- ni chaiff enw'r elusen ei hecsbloetio'n amhriodol
- mae'r telerau er lles yr elusen;
- mae'r telerau wedi'u drafftio'n fanwl gywir ac yn cael eu hadolygu'n gyson
- mae hawl gan yr elusen i atal y defnydd o'i henw yn y dyfodol os nad yw'n hapus â'r ffordd yr ymgymerir â'r fenter fasnachol

Sylwer: Os yw'r fenter yn un risg uchel gall yr enillion cychwynnol i'r cyfranogwr masnachol fod yn uchel ond wedi'u cyfiawnhau, ond dylai'r enillion fod yn is pan fydd y fenter wedi profi ei bod yn llwyddiant. Dylai'r cytundeb â'r cyfranogwr masnachol gael ei ddrafftio a'i adolygu i adlewyrchir posibilrwydd hwn.

Dylai elusennau fod yn wyliadwrus pan fyddant yn arwyddo cytundebau â chyrff allanol. Os yw'n cynhyrchu cyfradd enillion is, gellid teimlo bod yr elusen yn cael ei hecsbloetio neu ei bod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch twyllodrus. Er y gall elusen weld unrhyw incwm fel peth da, bydd trefniadau yr ystyrir eu bod yn darparu budd preifat sylweddol, ac sy'n cynnig buddion atodol yn unig i'r elusen, yn niweidio ffydd a hyder cyhoeddus yn y sector elusennol. Gall hefyd fwrw amheuaeth ar ymddygiad yr ymddiriedolwyr ac a ydynt wedi gweithredu'n briodol, a gallai hyn arwain at gamau rheoleiddio.

Mae'r Swyddfa dros Gymdeithas Sifil yn rhoi arweiniad ar godwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol.

Dylai elusennau gysylltu â Chyllid a Thollau EM gydag unrhyw ymholiadau treth sy'n ymwneud ag ymgysylltu â partneriaid masnachol.

E4. Faint o arian dylai elusen ei dderbyn gan bartner masnachol?

Yr ateb byr

Nid oes swm penodol y dylai elusen ei dderbyn, ond dylai elusennau sicrhau eu bod yn derbyn lefel tâl deg a phriodol.

Yn fwy manwl

Cafwyd achosion pan oedd elusennau wedi cael ychydig neu ddim budd o apeliadau codi arian a wnaed yn eu henw gan bartneriaid masnachol. Yn aml, mae'n ymddangos bod hyn wedi deillio o ddiniweidrwydd ar ran yr elusen. Rhaid i bob elusen sy'n gweithio gyda phartneriaid masnachol gael cytundeb sy'n pennu telerau'r contract. Dylai elusennau ddefnyddio partneriaid masnachol sy'n dilyn arferion da yn unig a dylent ddilyn canllawiau'r Swyddfa dros Gymdeithas Sifil y cyfeirir atynt yn Adran E2.

Mae dyletswydd ar y Comisiwn Elusennau i hyrwyddo ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau a gellir niweidio hyn drwy arferion codi arian gwael. Gall y Comisiwn ymchwilio a chymryd camau rheoleiddio os cafwyd rheolaeth wael dros arferion codi arian neu reolaethau ariannol gwael.

Dylai elusen sicrhau ei bod yn delio â phartneriaid masnachol cyfreithlon drwy:

- gael cytundeb wedi'i arwyddo â nhw
- cael perthynas dryloyw
- gofyn am eirdaon oddi wrth elusennau eraill y mae'r partner masnachol wedi cydweithio â nhw
- gwirio a yw'r codwr arian proffesiynol yn aelod o gorff sector parchus, megis y Bwrdd Safonau Codi Arian (FRSB) neu'r Sefydliad Codi Arian (IoF), sy'n rhoi sicrwydd i'r elusen fod y codwr arian wedi ymrwymo i ddilyn arferion da (sylwch, nid yw cyfranogwyr masnachol yn debygol o fod yn aelodau o FRSB neu IoF oherwydd nid eu busnes craidd yw darparu gwasanaethau codi arian)
- rhoi unrhyw gytundeb posibl allan i dendr agored i sicrhau eu bod yn cael y gwerth gorau, a monitro'r cytundeb tra ei fod yn parhau
- asesu'r rhesymau a roddir dros unrhyw gostau codi arian uchel arfaethedig ac a yw'r costau wedi'u cyfiawnhau

Rhagofalon sylfaenol yw'r rhain y dylai'r ymddiriedolwyr sicrhau bod eu helusennau yn ymgymryd â nhw. Mae Cod Ymarfer Codi Arian 'Elusennau Gweithio a Busnes' yn rhoi rhagor o wybodaeth.

F. Gwybodaeth bellach, cyngor ac adnoddau

F1. Dulliau o godi arian a deddfwriaeth berthnasol a chodau hunanreoleiddio

	Deddfwriaeth	Codau hunanreoleiddio*
Pob math o godi arian	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) Rheoliadau 1994 Deddf Plant 1989 (a 2004) Deddf Amddiffyn Plant 1999 Deddf Diogelu Data 1998 Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008	**Sefydliad Codi Arian** Derbyn neu Wrthod Rhoddion Atebolrwydd a Thryloywder Codi Arian Diogelu Data Cyfraith Elusennau'r Alban ar gyfer Codi Arian a Chasgliadau Elusennol Cyhoeddus Arferion Gorau ar gyfer Contractau Codi Arian Cod Ymarfer Talu Codwyr Arian **Awdurdod Safonau Hysbysebu** Cod Safonau Hysbysebion Teledu Cod Safonau Hysbysebion Radio Cod Hysbysebu, Hyrwyddo Gwerthiant a Marchnata Uniongyrchol Prydain
Apeliadau adeg trychineb	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 Deddf Diogelu Data 1998 Deddf Llwgrwobrwyo 2010	**Awdurdod Safonau Hysbysebu** Cod Hysbysebu, Hyrwyddo Gwerthiant a Marchnata Uniongyrchol Prydain
Ceisio grantiau	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994	**Sefydliad Codi Arian** Codi arian gan Ymddiriedolaethau Rhoi Grantiau Arferion Gorau ar gyfer Ymgynghorwyr Codi Arian Arferion Gorau ar gyfer Contractau Codi Arian

Codi arian ar-lein	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 Deddf Diogelu Data 1998 Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr (Gwerthu o Bell) 2000 Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008	**Sefydliad Codi Arian** Codi Arian trwy Gyfrwng Electronig Diogelu Data Arferion Gorau ar gyfer Contractau Codi Arian Postio Elusennau Cyfatebol **Awdurdod Safonau Hysbysebu** Cod Hysbysebu, Hyrwyddo Gwerthiant a Marchnata Uniongyrchol Prydain
Codi arian cyflogres	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 Deddf Diogelu Data 1998	**Sefydliad Codi Arian** Rhoi Ymroddedig yn y Gweithle
Codi arian cymynrodd	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 Deddf Diogelu Data 1998	**Sefydliad Codi Arian** Codi Arian Cymynrodd Postio Elusennau Cyfatebol Diogelu Data

Codi arian darlledu	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 Deddf Diogelu Data 1998 Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr (Gwerthu o Bell) 2000 Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008	**Sefydliad Codi Arian** Elusennau'n Gweithio gyda Busnes Diogelu Data Codi Arian Digwyddiadau Codi Arian trwy Gyfrwng Electronig Rafflau a Lotrïau Arferion Gorau ar gyfer Contractau Codi Arian Codi Arian Gwirfoddolwyr Codi Arian dros y Ffôn **Awdurdod Safonau Hysbysebu** Cod Safonau Hysbysebion Teledu Cod Safonau Hysbysebion Radio
Codi arian digwyddiadau	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 Deddf Diogelu Data 1998 Cyfreithiau trwyddedu lleol Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr (Gwerthu o Bell) 2000 Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 Cyfreithiau trwyddedu alcohol Deddf Hapchwarae 2005	**Sefydliad Codi Arian** Codi Arian Digwyddiadau Digwyddiadau Sialensiau Elusennau Trafod Rhoddion Arian Codi Arian Gwirfoddolwyr Codi Arian yn yr Awyr Agored yn y DU Recriwtio Casglwyr dros y Ffôn Arferion Gorau ar gyfer Contractau Codi Arian Arferion Gorau ar gyfer Ymgynghorwyr Codi Arian Rheoli Mannau Casglu Statig Rafflau a Lotrïau

Codi arian ffôn	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 System Dewis Ffôn (Rheoliadau Preifatrwydd ac Electronig (Cyfarwyddeb EC) 2003) Deddf Diogelu Data 1998 Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr (Gwerthu o Bell) 2000	**Sefydliad Codi Arian** Codi Arian dros y Ffôn Diogelu Data Arferion Gorau ar gyfer Contractau Codi Arian Recriwtio Casglwyr dros y Ffôn
Codi arian o ddrws i ddrws	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 Deddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ 1939 Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008	**Sefydliad Codi Arian** Casgliadau o Dŷ i Dŷ Trafod Rhoddion Arian Arferion Gorau ar gyfer Contractau Codi Arian Recriwtio Casglwyr dros y Ffôn Codi Arian Gwirfoddolwyr Gweithgarwch wyneb-yn-wyneb **Cymdeithas Rheoleiddio Codi Arian Cyhoeddus** Abridged Face-to-Face Activity wedi'i gymryd o'r Sefydliad Codi Arian.
Codwyr arian proffesiynol	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 Deddf Diogelu Data 1998	**Sefydliad Codi Aria** Arferion Gorau ar gyfer Ymgynghorwyr Codi Arian Arferion Gorau ar gyfer Contractau Codi Arian Talu Codwyr Arian

Codi arian wyneb-yn-wyneb	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 Deddf Diogelu Data 1998 Cyfreithiau trwyddedu lleol	**Sefydliad Codi Arian** Gweithgarwch wyneb-yn-wyneb Trafod Rhoddion Arian Rheoli Mannau Casglu Statig Arferion Gorau ar gyfer Contractau Codi Arian Codi Arian Gwirfoddolwyr Cyfraith Elusennau'r Alban ar gyfer Codi Arian a Chasgliadau Elusennol Cyhoeddus Diogelu Data **Cymdeithas Rheoleiddio Codi Arian Cyhoeddus** Abridged Face-to-Face Activity wedi'i gymryd o'r Sefydliad Codi Arian. **Awdurdod Safonau Hysbysebu** Cod Hysbysebu, Hyrwyddo Gwerthiant a Marchnata Uniongyrchol Prydain
Codi arian ysgolion	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 Deddf Plant 1989 (a 2004) Deddf Amddiffyn Plant 1999	**Sefydliad Codi Arian** Codi arian mewn Ysgolion Codi Arian Gwirfoddolwyr Trafod Rhoddion Arian Arferion Gorau ar gyfer Contractau Codi Arian Codi Arian Digwyddiadau
Cyfraniadau prif roddwyr	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 Deddf Diogelu Data 1998	**Sefydliad Codi Arian** Arferion Gorau ar gyfer Codi Arian Prif Roddwyr Arferion Gorau ar gyfer Ymgynghorwyr Codi Arian Diogelu Data Atebolrwydd a Thryloywder

Cyfranogwyr masnachol	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 Deddf Diogelu Data 1998 Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008	**Sefydliad Codi Arian** Arferion Gorau ar gyfer Contractau Codi Arian Elusennau'n Gweithio gyda Busnes
Lotrïau a rafflau	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 Deddf Hapchwarae 2005 Gweler hefyd Cod Ymarfer y Comisiwn Hapchwarae Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008	**Sefydliad Codi Arian** Rafflau a Lotrïau Arferion gorau ar gyfer Contractau Codi Arian Codi Arian Gwirfoddolwyr Recriwtio Casglwyr dros y Ffôn Diogelu Data **Awdurdod Safonau Hysbysebu** Cod Hysbysebu, Hyrwyddo Gwerthiant a Marchnata Uniongyrchol Prydain
Post uniongyrchol	Deddf Elusennau 1992 Deddf Elusennau 1993 Deddf Elusennau 2006 Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 Deddf Diogelu Data 1998 Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr (Gwerthu o Bell) 2000 Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008	**Sefydliad Codi Arian** Post Uniongyrchol Trafod Rhoddion Arian Arferion Gorau ar gyfer Contractau Codi Arian Postio Elusennau Cyfatebol Diogelu Data **Awdurdod Safonau Hysbyse** Cod Hysbysebu, Hyrwyddo Gwerthiant a Marchnata Uniongyrchol Prydain

*Mae'r codau ymarfer hyn i'w gweld yn www.institute-of-fundraising.org.uk neu www.asa.org.uk neu www.pfra.org.uk

F2. Cyhoeddiadau a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau

- *Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod* (CC3)
- *Rheolaethau Ariannol Mewnol ar gyfer Elusennau* (CC8)
- *Elusennau a Rheoli Risg* (CC26)
- *Darparu Alcohol ar Safleoedd Elusennau* (CC27)
- *Diogelu Plant: Diogelu Plant yn eich Sefydliad*

F3. Sefydliadau eraill

Cymdeithasau proffesiynol ar gyfer codi arian

Bwrdd Safonau Codi Arian

Mae'r Bwrdd Safonau Codi Arian (FRSB) yn gorff trin cwynion annibynnol a sefydlwyd i weithredu ochr gyhoeddus hunanreoleiddio codi arian. Mae FRSB yn annog elusennau a chodwyr arian i fod yn aelodau o'u cynllun hunanreoleiddio a dilyn *Codau Ymarfer Codi Arian* y Sefydliad i sicrhau bod pob aelod yn ymrwymo i'r safonau codi arian gorau posibl a bod ganddynt weithdrefnau cadarn yn eu lle. Mae FRSB yn ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd am ddulliau codi arian ei aelodau os yw ymateb anfoddhaol wedi cael ei dderbyn i gŵyn gychwynnol a wnaed yn uniongyrchol i'r elusen gan aelod o'r cyhoedd.

Bwrdd Safonau Codi Arian
61 London Fruit Exchange
Brushfield Street
Llundain E1 6EP

Ffôn: 0845 402 5442
E-bost: info@frsb.org.uk
Gwefan: www.frsb.org.uk

Cymdeithas Rheoleiddio Codi Arian Cyhoeddus

Mae'r Gymdeithas Rheoleiddio Codi Arian Cyhoeddus (PFRA) yn canolbwyntio'n benodol ar godi arian wyneb-yn-wyneb. Mae codwyr arian wyneb-yn-wyneb yn gofyn i bobl gofrestru i roi rhoddion debyd uniongyrchol rheolaidd i elusennau. Mae PFRA yn sefydliad aelodaeth lle mae aelodau'n dilyn cod ymarfer ar gyfer codwyr arian wyneb-yn-wyneb. Mae PFRA hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r cyhoedd ac ymddiriedolwyr ar ei wefan.

Cymdeithas Rheoleiddio Codi Arian Cyhoeddus
Unit 11, Europoint
5-11 Lavington Street
Llundain SE1 0NZ

Ffôn: 020 7401 8452
E-bost: info@pfra.org.uk
Gwefan: www.pfra.org.uk

Cymdeithas Adwerthu Elusennol

Mae Cymdeithas Adwerthu Elusennol (CRA) yn sefydliad aelodaeth sydd wedi ymrwymo i gefnogi elusennau cofrestredig sy'n rhedeg siopau fel rhan o'u gweithgareddau codi arian. Mae wedi datblygu cod adwerthu elusennau sy'n orfodol i'w aelodau. Nid yw CRA yn darparu cyngor neu arweiniad cyfreithiol i unigolion sy'n gwneud ymholiadau ynghylch sefydlu siop elusennol.

Cymdeithas Adwerthu Elusennol
Central House
14 Upper Woburn Place
Llundain WC1H 0AE

Ffôn: 020 7255 4470
E-bost: charityretail.org.uk
Gwefan: www.charityretail.org.uk

Sefydliad Codi Arian

Y Sefydliad Codi Arian (IoF) yw'r corff aelodaeth proffesiynol ar gyfer codi arian. Ei genhadaeth yw cefnogi codwyr arian trwy arweinyddiaeth, cynrychiolaeth, gosod safonau ac addysg. Mae aelodau'n dilyn Codau Ymddygiad a *Chodau Ymarfer Codi Arian* sy'n ffurfio sail hunanreoleiddio ar gyfer y proffesiwn codi arian.

Mae gwefan IoF yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth, gyda chanllawiau arbenigol ar ddulliau codi arian, trefniadau codi arian safonol i elusennau a gwybodaeth arall.

Sefydliad Codi Arian
Park Place
12 Lawn Lane
Llundain SW8 1UD

Ffôn: 020 7840 1000
E-bost:
info@institute-of-fundraising.org.uk
Gwefan:
www.institute-of-fundraising.org.uk

Gwefan Rhoi Treth-effeithiol:
www.tax-effectivegiving.org.uk

Gwefan How2Fundraise:
www.how2fundraise.org

Sefydliadau eraill

Awdurdod Safonau Hysbysebu

Mae'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) yn rheoleiddio cynnwys hysbysebion, hyrwyddiadau gwerthu a marchnata uniongyrchol yn y DU. Mae'n gwneud yn siŵr bod safonau yn uchel drwy gymhwyso codau safonau hysbysebu. Gall atal hysbysebu camarweiniol, niweidiol neu dramgwyddus.

Awdurdod Safonau Hysbysebu
Mid City Place
71 High Holborn
Llundain WC1V 6QT

Ffôn: 03000 123 000
Ffôn testun 020 7242 8159
E-bost: enquiries@asa.org.uk
Gwefan: www.asa.org.uk

Comisiwn Hapchwarae

Mae'r Comisiwn Hapchwarae yn gyfrifol am reoleiddio betio a hapchwarae o bell. Mae'n cynhyrchu gwybodaeth am lotrïau yn ei gyhoeddiad *Deddf Hapchwarae 2005*. Mae gwasanaeth e-bost ac ymholiadau ffôn ganddo.

Comisiwn Hapchwarae
Adran Lotrïau
4th Floor
Victoria Square House
Victoria Square
Birmingham B2 4BP

Ffôn: 0121 230 6666
E-bost:
info@gamblingcommission.gov.uk
Gwefan:
www.gamblingcommission.gov.uk

Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol

Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO) yw'r corff mantell i'r sector gwirfoddol a chymunedol yn Lloegr. Mae ei wefan yn cynnwys gwybodaeth am gyllido, gan gynnwys cyflwyniad i godi arian. Mae Desg Gymorth NCVO yn wasanaeth rhad ac am ddim sy'n darparu cyngor a chymorth i unrhyw un sy'n ymwneud â'r sector gwirfoddol.

Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol
Regents Wharf
8 All Saints Street
Llundain N1 9RL

Ffôn: 0800 2798 798
Ffôn testun: 0800 01 88 111 (Minicom)
E-bost: helpdesk@askncvo.org.uk
Gwefan: www.ncvo-vol.org.uk

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw llais y sector gwirfoddol yng Nghymru.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig
Sgwâr Mount Stuart
Bae Caerdydd Caerdydd CF10 5FH

Ffôn: 029 2043 1700
Desg Gymorth Ddwyieithog: 0800 2888 329
Minicom: 02920431703
E-bost: help@wcva.org.uk
Gwefan: www.wcva.org.uk

Cymdeithas Genedlaethol Gweithredu Gwirfoddol a Chymunedol

Cymdeithas Genedlaethol Gweithredu Gwirfoddol a Chymunedol (NAVCA) yw llais cenedlaethol seilwaith y sector gwirfoddol a chymunedol lleol yn Lloegr. Ei bwrpas yw hyrwyddo gweithredu gwirfoddol a chymunedol lleol yn genedlaethol. Gwna hyn drwy 360 o sefydliadau seilwaith lleol sy'n darparu ystod eang o wasanaethau cymorth, datblygiad a chynrychiolaeth i'r sector gwirfoddol a chymunedol lleol.

NAVCA
The Tower
2 Furnival Square
Sheffield S1 4QL

Ffôn: 0114 278 6636
E-bost: navca@navca.org.uk
Gwefan: www.navca.org.uk

Charities Aid Foundation

Mae Charities Aid Foundation (CAF) yn cefnogi elusennau wrth iddynt godi arian a sicrhau bod yr arian yn mynd ymhellach. Mae'n rhoi gwybodaeth ar roi treth-effeithlon a rheoli rhoddion. Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar ei wefan, gan gynnwys manylion am ffyrdd newydd o godi arian.

Charities Aid Foundation
25 Kings Hill Avenue
Kings Hill
West Malling
Caint ME19 4TA

Ffôn: 03000 123 000
E-bost: enquiries@cafonline.org
Gwefan: www.cafonline.org

Directory of Social Change

Mae'r Directory of Social Change (DSC) yn darparu hyfforddiant a gwybodaeth i'r sectorau gwirfoddol a chymunedol. Mae llyfrgell gyfeirio fewnol fach yn ei chanolfan elusennau yn Llundain. Mae'r llyfrgell yn cynnwys dros 1,000 o lyfrau, adroddiadau a thaflenni, gan gynnwys canllawiau cyllido cyfoes fel *Guide to Major Trusts* a'r *Directory of Grant Making Trusts*. Mae DSC yn cynhyrchu'r *Complete Fundraising Handbook*. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth am egwyddorion a strategaethau codi arian.

Directory of Social Change
24 Stephenson Way
Llundain NW1 2DP

Ffôn: 08450 777707
E-bost: enquiries@dsc.org.uk
Gwefan: www.dsc.org.uk

ImpACT Coalition

Mae'r ImpACT Coalition yn bodoli i hybu dealltwriaeth gyhoeddus well o sut y mae elusennau'n gweithio a'r manteision a gynigiant i gymdeithas drwy ddwyn ynghyd dros 280 o elusennau a chyrff masnach i wella tryloywder ac atebolrwydd a gwarchod ffydd cyhoeddus yn y sector elusennol.

ImpACT Coalition
1 New Oxford Street
Llundain WC1A 1NU

Ffôn: 0845 345 8481
E-bost: impact@acevo.org.uk
Gwefan: www.impactcoalition.org.uk

Rheoleiddwyr ac adrannau eraill o'r llywodraeth

Cyllid a Thollau EM

Mae cyswllt cyflym gan Gyllid a Thollau EM (HMRC) i elusennau ar dudalen gyntaf ei wefan. Ar y wefan gallwch gyrchu ystod eang o ddeunyddiau canllaw i elusennau. Mae gwybodaeth yn cynnwys manylion TAW a materion treth i elusennau, gan gynnwys Cymorth Rhodd. Mae gwasanaeth ymholiadau e-bost a llinell gymorth gan HMRC.

HMRC Elusennau
St Johns' House
Merton Road
Lerpwl, L75 1BB

Ffôn: 0845 302 0203
(8am-5pm Llun - Gwener)
E-bost: charities@hmrc.gov.uk
Gwefan: www.hmrc.gov.uk

Y Swyddfa Masnachu Teg

Mae'r Swyddfa Masnachu Teg (OFT) yn hybu ac yn gwarchod buddiannau defnyddwyr trwy'r DU, gan sicrhau bod busnesau yn deg ac yn gystadleuol, drwy'r pwerau a roddir i OFT o dan ddeddfwriaeth defnyddwyr a chystadleuaeth. Mae canllawiau a chyngor defnyddiol ar wefan OFT ar ddiogelu defnyddwyr, gwerthu ar garreg drws, gwerthu o bell neu ar-lein a llunio contractau.

Canolfan Ymholiadau ac Adrodd
Y Swyddfa Masnachu Teg
Fleetbank House
2-6 Salisbury Square
Llundain EC4Y 8JX.

Ffôn: 020 7211 8000
E-bost: enquiries@oft.gsi.gov.uk
Gwefan: www.oft.gov.uk

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

O ddiogelu data a chyfathrebu electronig i ryddid gwybodaeth a rheoliadau amgylcheddol, ICO yw corff cyhoeddus annibynnol y DU wedi'i sefydlu i gynnal hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd, annog cyrff cyhoeddus i fod yn agored a hyrwyddo preifatrwydd data i unigolion.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaerlleon SK9 5AF

Ffôn: 08456 30 60 60 neu
01625 54 57 45
Gwefan: www.ico.gov.uk

Swyddfa dros Gymdeithas Sifil

Mae'r Swyddfa dros Gymdeithas Sifil wedi datblygu canllawiau ar ba wybodaeth y mae'n rhaid i godwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol ei darparu i'r cyhoedd pan fyddant yn cynnal casgliad cyhoeddus ar ran elusen.

Swyddfa dros Gymdeithas Sifil
2nd Floor,
Admiralty Arch,
South Side The Mall,
Llundain SW1A 2WH

Ffôn: 020 766 6400
Gwefan: www.cabinetoffice.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2010. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Crëwyd a chynhyrchwyd gan: Adran Ddylunio, Comisiwn Elusennau

Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

Comisiwn Elusennau
Ffôn: **0845 300 0218**
Typetalk: **0845 300 0219**
Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**

Elusennau a Chodi Arian. Mai 2011. **CC20**